
Cynllun Gwaith Ofcom 2020/21

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cyflwyniad: mae cyfathrebu yn bwysicach nawr nag erioed	3
3. Ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer 2020/21	7
4. Cyflawni ar gyfer pobl ar draws y DU	16
5. Sicrhau gwerth am arian	20

Atodiad

A1. Beth rydym yn ei wneud	21
A2. Gwaith parhaus	23
A3. Gwaith Prosiect ar gyfer 2020/21	30

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynllun gwaith Ofcom ar gyfer 2020/21. Bydd eleni yn flwyddyn anarferol, wrth i Ofcom – a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw – ganolbwyntio ar ymateb i argyfwng coronafeirws (COVID-19). Mae'r bobl, y busnesau a'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio yn wynebu amgylchiadau heriol unigryw.

Ers ein hymgyngoriad, rydym wedi ailedrych ar ein cynllun yn sgil y coronafeirws, sy'n parhau i ddatblygu wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

At ei gilydd, nid yw ein nodau wedi newid. Mae gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu yn bwysicach nawr nag erioed i bawb. Mae ein gwaith ar degwch i gwsmeriaid, diogelu pobl sydd mewn sefyllfa fregus, a mynediad at gynnwys sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi ein cymdeithas – gan gynnwys newyddion o safon uchel sy'n darparu'r wybodaeth gywir – yn hollbwysig.

Dros yr wythnosau diwethaf, gyda nifer ohonom yn gweithio ac yn dysgu gartref, rydym wedi gweithio gyda gweithredwyr telegyfathrebiadau a darparwyr cynnwys i sicrhau bod rhwydweithiau gwasanaethau symudol a band eang yn dal yn gadarn, ac yn parhau i weithredu'n effeithiol. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar becyn o fesurau i gefnogi cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus, a gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gefnogi gwasanaethau yn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell y DU. O ran darlledu, rydym wedi parhau i ymateb yn gyflym i gynnwys a ddarlledir a allai achosi fwyaf o niwed i'r gynulleidfa, yn enwedig o ran y coronafeirws.

Rydym yn ffyddiog y bydd ein themâu strategol a'n cynllun gwaith yn dal yn bwysig yn y tymor hir.

Mae ein gwaith i helpu pobl a busnesau sy'n dioddef yn sgil y pandemig, a'n gwaith ar gyfer 2020/21 yn gyffredinol, yn adlewyrchu ein themâu strategol ehangach:

- Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi;
- Tegwch i gwsmeriaid;
- Cefnogi darlledu yn y DU;
- Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau;
- Galluogi rhwydweithiau cadarn a diogel;
- Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol;
- Parhau i arloesi o ran rheoleiddio a data i helpu pobl a busnesau;
- Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant;
- Cefnogaeth drwy gyfnod pontio'r broses o ymadael â'r UE, a chysylltiadau rhyngwladol parhaol.

Ein nod yw cwblhau ein rhaglen waith lawn sydd wedi'i threfnu ar gyfer 2020/21. Pan nad yw'r busnesau a'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio yn gallu ymgysylltu â ni, neu pan na allwn gynnal ymgynghoriadau neu ddigwyddiadau angenrheidiol, rydym yn addasu ein hamserlenni. Mae'r amseriad newydd yn glir mewn rhai achosion, ac mewn achosion eraill bydd yn dibynnu ar ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf yn dilyn argyfwng cychwynnol y coronafeirws yn y DU. Bydd ein cynlluniau yn rhai byw a hyblyg, a byddwn yn cyhoeddi cynllun wedi'i ddiweddarau ym mis Medi, yn ogystal â diweddariadau chwarterol ynghylch ein cerrig milltir a'r hyn rydym wedi'i gyflawni.

Mae'r cynllun gwaith hwn yn seiliedig ar ymatebion i'n dogfen ymgynghori ym mis Ionawr, a'n digwyddiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd, yn Belfast, yng Nghaeredin ac yn Llundain.

Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu penodi Ofcom fel y rheoleiddiwr newydd ar gyfer niwed ar-lein, ac mae wedi cadarnhau mai Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer llwyfannau rhannu fideos yn y DU. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi deddfwriaeth newydd i weithredu argymhellion ei Hadolygiad o'r Gadwyn Gyflenwi Telegyfathrebiadau, gan gynnwys pwerau gorfodi uwch i Ofcom yng nghyswllt diogelwch rhwydweithiau.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein gwaith arfaethedig mewn ymateb i'r cyhoeddiadau hyn.

2. Cyflwyniad: mae cyfathrebu yn bwysicach nawr nag erioed

- 2.1 Mae cynnal rhwydweithiau cyfathrebu ar draws y DU yn bwysicach nawr nag erioed. Mae'r sectorau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu teuluoedd, busnesau ac unigolion wrth i ni i gyd addasu ein ffordd o fyw, ein ffordd o weithio a'r ffordd rydym yn cyfathrebu yn sgil argyfwng y coronafeirws.
- 2.2 Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio wedi dod at ei gilydd i gefnogi'r economi a'r cyhoedd, ac i gadw'r cysylltiadau yn y DU. Rydym yn croesawu hynny'n fawr. Mae darparwyr telegyfathrebiadau yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau llinellau tir, band eang a symudol yn gadarn wrth i'r galw ar y rhwydweithiau gynyddu, yn ogystal â blaenoriaethu mynediad at wasanaethau hanfodol sy'n diogelu bywydau, fel 999 neu 111. Mae rhai cwmnïau hefyd wedi cymryd camau penodol i gefnogi eu cwsmeriaid, er enghraifft drwy ddarparu galwadau diderfyn neu gynyddu'r lwfansau data. Mae darlledwyr yn addasu eu hamserlenni er mwyn cynnal rhaglenni o safon uchel sy'n diddanu ac yn cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd, a sicrhau gwasanaethau newyddion o safon uchel sy'n darparu'r wybodaeth gywir. Mae darparwyr gwasanaethau post yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod y post yn parhau i gyrraedd pen y daith, yn enwedig i gwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus.
- 2.3 Mae Ofcom wedi gweithio gyda llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i gefnogi'r ymdrechion hyn, a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym hefyd yn cydnabod fod hyn yn digwydd yn wyneb heriau gweithredol ac ariannol sylweddol i'n diwydiannau, o ganlyniad i'r coronafeirws a'r cyfnod o gyfyngiadau symud.
- 2.4 Mae llawer o bobl yn ein sectorau wedi'u henwi'n weithwyr allweddol – gan gynnwys peirianwyr telegyfathrebu, peirianwyr gorfodi sbectrwm, darlledwyr, newyddiadurwyr a gweithwyr post. Estynnwn ein diolch a'n cefnogaeth iddynt, wrth iddyn nhw gadw llinellau cyfathrebu'r DU i fynd.

Gweithgareddau allweddol i gefnogi'r DU

- 2.5 Ein gwaith ni yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Yn ein [Datganiad](#)¹ ar 24 Mawrth 2020, rydym yn egluro ein blaenoriaeth frys i sicrhau bod rhwydweithiau hanfodol yn dal yn gadarn, a'n hagwedd at reoleiddio yn ystod y cyfnod hwn.
- 2.6 Ers hynny, rydym wedi parhau i weithio gyda'r diwydiant a llywodraethau ar ymdrechion i gefnogi teuluoedd, busnesau ac unigolion yn ystod y cyfnod hwn.

¹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/policies-and-guidelines/coronavirus-information>

Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

- 2.7 Wrth i bobl weithio gartref ac wrth i ysgolion gau, mae'r diwydiant telegyfathrebiadau yn gweithio'n agos gyda ni a Llywodraeth y DU i sicrhau bod y rhwydweithiau'n dal yn gadarn ac yn parhau i weithio'n dda.
- 2.8 Mae darparwyr telegyfathrebiadau'n monitro'r traffig ar eu rhwydweithiau yn ofalus, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau maent yn eu cymryd i reoli tagfeydd yn effeithiol. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan ddarparwyr cynnwys a gwasanaethau ffrydio, a'r cydweithio gan rwydweithiau darparu cynnwys a chwmnïau gemau, i liniaru effaith y llwyth cynyddol ar y rhwydwaith, drwy addasu eu gwasanaethau lle bo hynny'n bosib. O ganlyniad, mae'r galw ar rwydweithiau'n cael ei wasgaru ar hyd y dydd er mwyn osgoi adegau prysur iawn lle mae llawer o draffig. Rydym hefyd yn cydweithio â gweithredwyr rhwydweithiau sydd angen hyblygrwydd er mwyn mynd ati i reoli traffig ar y rhwydwaith pan fydd angen – er enghraifft, i fynd i'r afael â'r galw ar y rhwydwaith wrth i fwy o bobl weithio gartref.
- 2.9 Mae'n hollol hanfodol sicrhau dibynadwyedd galwadau 999 ac 111. O dan reolau presennol Ofcom, rhaid i gwmnïau ffôn sicrhau bod modd cysylltu galwadau brys bob amser, hyd yn oed mewn amgylchiadau heriol. Rydym yn cadw mewn cysylltiad agos â'r rheini sy'n gyfrifol am gysylltu galwadau 999 ac 111, ac wedi cael sicrwydd manwl ganddynt am gapasiti a chadernid y ddau wasanaeth.

Diogelu a rheoli'r tonnau awyr

- 2.10 Mae gan Ofcom rôl hanfodol i sicrhau nad oes dim byd yn ymyrryd â thonnau awyr y DU, fel bod modd i gyfathrebiadau a darlledu hanfodol fynd rhagddynt yn ddirwysr. Byddwn yn blaenoriaethu unrhyw gamau sy'n ofynnol i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, er enghraifft, ar gyfer rhwydweithiau pŵer. Mae ein peirianwyr a'n technegwyr wedi cael eu dynodi'n weithwyr allweddol, ac maen nhw'n parhau i weithio i sicrhau bod y tonnau awyr yn gweithio ac yn ddiogel.

Cadw pobl mewn cysylltiad a diogelu cwsmeriaid

- 2.11 Ein blaenoriaeth dros y cyfnod hwn yw sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cadw mewn cysylltiad a derbyn cymorth os ydynt yn wynebu trafferthion ariannol, a'u bod wedi'u gwarchod rhag biliau annisgwyl o uchel. Mae Ofcom yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a darparwyr cyfathrebiadau ar fesurau i gynorthwyo cwsmeriaid bregus. Mae'r mesurau hynny'n cynnwys: gohirio biliau er mwyn osgoi datgysylltu'r rheini sy'n methu talu; darparu cysylltedd ar gyfer cwsmeriaid sy'n colli gwasanaethau sefydlog; darparu galwadau 101 am ddim; a mynd i'r afael â ffioedd uchel ar gyfer gwasanaethau ffôn mewn ysbytai.
- 2.12 Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda chwmnïau telegyfathrebiadau i ddarparu gwybodaeth ymarferol i helpu pobl a busnesau bach i fanteisio i'r eithaf ar eu cysylltiadau symudol a band eang, drwy ein hymgyrch "Cadw'r Cysylltiad".

Sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at gynnwys o ansawdd uchel, a chynnal dibynadwyedd a ffydd pobl mewn gwasanaethau teledu a radio

- 2.13 Mae cynulleidfaoedd yn dibynnu mwy nag erioed nawr ar gynnwys a newyddion diduedd a chywir o safon uchel. Mae cywirdeb mewn darlledu'n hollbwysig, a byddwn yn rhoi sylw brys i unrhyw achosion gorfodi safonau sy'n ymwneud ag unrhyw gynnwys niweidiol posib a ddarledwyd mewn cysylltiad â'r coronafeirws. Rydym wedi dweud yn glir y byddwn yn blaenoriaethu achosion safonau darlledu sy'n ymwneud â'r coronafeirws a allai achosi niwed i gynulleidfaoedd, ac rydym yn gwneud hynny. Rydym hefyd yn cefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol drwy'r gwaith ymchwil wythnosol rydym yn ei gyhoeddi ynghylch sut mae pobl yn derbyn ac yn gweithredu ar wybodaeth yn ystod y pandemig.

Cefnogi'r Gwledydd

- 2.14 Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar faterion sy'n hollbwysig i holl wledydd y DU. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar wasanaethau band eang, symudol a phost yn ardaloedd mwyaf gwledig ac anghysbell y DU, a gweithio gyda darlledwyr i helpu'r sector creadigol i reoli ac ymateb i effeithiau'r feirws a'r cyfnod o gyfyngiadau symud.

Goruchwylio amgylchedd rheoleiddio hyblyg

- 2.15 Rydym yn barod i addasu ein dull rheoleiddio yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn i'n busnesau allu canolbwyntio – o ran amser ac ymdrech – ar faterion sy'n hanfodol i fusnes. Er enghraifft, ar 24 Mawrth, roeddem wedi cyhoeddi y byddem yn gohirio'r holl ddyddiadau cau ar gyfer ymgynghoriadau a cheisiadau gwybodaeth presennol, ac y byddai ceisiadau gwybodaeth, penderfyniadau ac ymgynghoriadau newydd yn cael eu dal yn ôl am y tro.
- 2.16 Rydym yn mynd ati i orfodi mewn ffordd bragmataidd dros y cyfnod hwn. Mae cydymffurfio â rheoliadau yn dal yn bwysig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd effaith y coronafeirws yn golygu na fydd hi bob amser yn bosib cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. Ein barn ni yw y dylai cwmnïau wneud penderfyniadau sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol, pobl sydd mewn sefyllfa fregus a'r rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau cyfathrebu. Byddwn yn cefnogi penderfyniadau o'r fath os ydynt er budd pobl a busnesau.
- 2.17 Er enghraifft, ar 20 Mawrth, roeddem wedi ysgrifennu at bawb sydd â thrwydded ddarlledu i egluro na fyddem yn llacio amodau trwyddedau yn ffurfiol, ond ein bod ni o'r farn bod 'force majeure' ar waith, ac felly na fyddem yn cymryd camau gorfodi o ran ymrwymadau cynhyrchu neu raglennu. O ran y BBC a darlledwyr eraill, rydym yn bod yn hyblyg pan na allant gyflawni gofynion y drwydded oherwydd trefniadau staffio neu drefniadau cau dros dro. Gyda gweithredwyr telegyfathrebiadau, rydym yn llacio rhai gofynion dros dro (e.e. ar iawndal awtomatig a rheoliadau ansawdd gwasanaeth), ac yn mabwysiadu agwedd bragmataidd o ran gorfodi ein rheolau ar hysbysiadau diwedd contract.

- 2.18 Rydym yn cydnabod bod gan y gwahanol gwmnïau rydym yn eu rheoleiddio rywmedigaethau gwahanol, a byddwn yn parhau i ddelio â hyn mewn ffordd bragmataidd. Ond wrth iddi ddod yn haws delio â'r sefyllfa bresennol, rydym yn disgwyl i'n rhanddeiliaid gydymffurfio â'u rhwymedigaethau rheoleiddio cyn gynted ag sy'n weithredol ac yn rhesymol bosib.

Cyflawni ein rhaglen waith gyffredinol

- 2.19 Ein nod yw cwblhau ein rhaglen waith lawn sydd wedi'i threfnu ar gyfer 2020/21, gan weithio gartref pan fydd hynny'n dal yn briodol. Rydym wedi adolygu ein cynlluniau ar gyfer 2020/21, gan addasu'r amserlenni er mwyn adlewyrchu'r realiti y bydd yn rhaid i lawer o'r busnesau a'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio ganolbwytio – o ran amser a sylw – ar faterion sy'n hollbwysig i fusnes yn ystod y misoedd nesaf.
- 2.20 Pan nad yw'r rheini rydym yn eu rheoleiddio yn gallu ymgysylltu â ni, neu pan na allwn gynnal ymgynghoriadau neu ddigwyddiadau angenrheidiol, rydym yn addasu ein hamserlenni. Mae'r amseriad newydd yn glir mewn rhai achosion, ac mewn achosion eraill byddant yn dibynnu ar ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf yn dilyn argyfwng cychwynnol y coronafeirws. O ddechrau mis Mehefin ymlaen, byddwn yn dechrau cyhoeddi ceisiadau gwybodaeth a chyhoeddiadau newydd yn unol â'n cynllun gwaith, gan ganolbwytio'n arbennig ar feysydd blaenoriaeth. Cyn hynny, byddwn ni'n ystyried ym mhle y gallwn gau ceisiadau gwybodaeth neu ymgynghoriadau sydd heb eu cwblhau, ac yn parhau i gyhoeddi adroddiadau ymchwil. Byddwn yn arbennig o sensitif i unrhyw geisiadau sy'n gofyn am fewnbwn sylweddol gan fusnesau a sefydliadau.
- 2.21 Bydd ein cynlluniau yn rhai byw a hyblyg, a byddwn yn cyhoeddi cynllun wedi'i ddiweddarau ym mis Medi, yn ogystal â diweddariadau chwarterol ynghylch ein cerrig milltir a'r hyn rydym wedi'i gyflawni. Mae manylion am amserlenni ar gael yn Atodiad 3.
- 2.22 Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu ein cynllun gwaith ar gyfer 2020/21, gan gynnwys dyddiadau cyflawni.

3. Ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer 2020/21

- 3.1 Mae'r pandemig coronafeirws wedi pwysleisio rôl hanfodol y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae angen i ni helpu'r sectorau hyn i baratoi ar gyfer y dyfodol pan fydd yr argyfwng hwn drosodd. Mae'r naw thema strategol yr oeddem wedi ymgynghori arnynt yn dal yn addas i bobl a busnesau ledled y DU, yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- 3.2 Wrth bennu'r themâu hyn a'n rhaglen waith, rydym wedi ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU,² fel a ganlyn:
- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf.** Mae sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith digidol o'r radd flaenaf yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU. Mae ein gwaith o dan y thema "Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi" yn cefnogi'r flaenoriaeth hon drwy hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd a defnyddio sbectrwm yn y ffordd orau bosib, er budd pobl a busnesau ar hyd a lled y DU.
 - **Hyrwyddo buddiannau cwsmeriaid telegyfathrebiadau.** Un o flaenoriaethau strategol Llywodraeth y DU yw diogelu buddiannau cwsmeriaid telegyfathrebiadau, gan gynnwys pobl sydd mewn sefyllfa fregus a'r rheini nad ydynt yn ymgysylltu cymaint. Mae ein gwaith ar sicrhau "Tegwch i Gwsmeriaid" yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.
 - **Seilwaith telegyfathrebiadau diogel a chadarn.** Mae ein rhaglen ynghylch 'Galluogi rhwydweithiau cadarn a diogel' yn cefnogi blaenoriaeth strategol Llywodraeth y DU yn uniongyrchol i sicrhau bod gwasanaethau a rhwydweithiau telegyfathrebiadau yn ddiogel ac yn gadarn.
 - **Gwasanaethau post.** Mae ein gwaith parhaus yn "Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol" yn cefnogi blaenoriaeth strategol y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau post, gan gynnwys yr angen i'r diwydiant ac Ofcom gydweithio i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y sector.

Ein prif feysydd gwaith fesul thema strategol

Gwell gwasanaethau band eang a symudol i bawb – mae buddsoddi ac arloesi yn bwysicach nawr nag erioed

- 3.3 **Mae arnom eisiau sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau symudol a band eang cyflym a dibynadwy, lle bynnag maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn teithio.** Mae buddsoddiadau blaenorol mewn band eang cyflym iawn, darpariaeth symudol 4G, a rhwydweithiau craidd wedi ymateb i'r her hyd yma, wrth i ddefnydd busnesau a chartrefi gynyddu. Yn ystod 2020-21, byddwn yn canolbwyntio ar waith sy'n cefnogi buddsoddiad

²

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/779226/SSP_Consultation_-_Publication_Version_2_.pdf

parhaus a chystadleuaeth o ran gwasanaethau di-wifr a sefydlog sy'n gallu delio â gigabits, gan gynnwys ffeibr a 5G i ddiwallu'r galw sy'n cynyddu drwy'r amser.

- 3.4 Rydym yn cefnogi buddsoddiadau mewn rhwydweithiau ffeibr.** Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'r farchnad Mynediad Sefydlog Telegyfathrebiadau Cyfanwerthol erbyn mis Ebrill 2021, gan sefydlu fframwaith rheoleiddio tymor hwy o ran cystadleuaeth a buddsoddiad ar gyfer y pum mlynedd rhwng Ebrill 2021 a 2026. Bydd yr adolygiad hwn yn cefnogi buddsoddiad a chystadleuaeth o ran gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits, gan sicrhau bod gwasanaethau band eang o'r radd flaenaf ar gael i gynifer o bobl a busnesau â phosib.
- 3.5 Byddwn yn helpu i lansio gwasanaethau di-wifr newydd** ar gyfer pobl a'r diwydiant, gan gynnwys 5G. Rydym eisiau sicrhau bod gan y farchnad y sbectrwm angenrheidiol er mwyn i ddefnyddwyr allu cael budd o well profiad, ac i chwaraewyr yn y farchnad allu rhoi gwasanaethau arloesol ar waith a sicrhau buddion economaidd i'r DU. Rydym ni'n credu y dylid defnyddio sbectrwm pan fydd ar gael, a byddwn yn dyfarnu trwyddedau ym mandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz drwy arwerthiant cyn gynted â phosib.
- 3.6 Byddwn yn clirio gwasanaethau teledu digidol oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol.** Byddwn yn parhau i weinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio 700 MHz. Byddwn hefyd yn monitro'r gwaith o gyflwyno a datblygu gwasanaethau mynediad di-wifr sefydlog a 5G. Byddwn yn cymryd amryw o gamau i sicrhau bod sbectrwm ychwanegol ar gael – gan gynnwys cynyddu mynediad at sbectrwm sydd wedi'i eithrio o drwydded i gefnogi arloesedd, a galluogi treialon technoleg newydd drwy ein trwyddedau Arloesi a Threialon.
- 3.7** Yn ogystal â'r ddwy elfen hyn, byddwn yn:
- cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau band eang teilwng cyffredinol, gan nodi rheolau cyllido yn Ch1 ac asesu ymhellach gyraeddiad gwasanaethau yn Ch3. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ei rhaglen i ddod â ffeibr i'r ardaloedd anoddaf eu cyrraedd yn y wlad;
 - gweithio gyda'r diwydiant drwy gydol y flwyddyn i gefnogi proses a reolir i roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau sy'n dibynnu ar hen rhwydweithiau copr, a newidiadau i wasanaethau llais sefydlog, gan ymgynghori yn Ch1 ar reolau ynghylch pryd gellir rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau hŷn;
 - parhau i helpu i wella'r ddarpariaeth symudol. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor technegol parhaus i Lywodraeth y DU ar y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2020. Byddwn yn parhau i ystyried opsiynau i wella darpariaeth pobl pan fyddant yn teithio neu mewn adeiladau;
 - datblygu rhagor o gyfleoedd i rannu sbectrwm er mwyn cefnogi gwasanaethau newydd drwy ffyrdd newydd o awdurdodi sbectrwm, gan gynnwys prosesau awtomatig; a
 - parhau i gyhoeddi ein canlyniadau yn dilyn profi pŵer electromagnetig gorsafoedd sylfaen rhwydweithiau symudol. Byddwn hefyd, yn amodol ar ganlyniadau ein hymgyngoriad, yn cyflwyno amod newydd ar gyfer trwyddedau sbectrwm, sy'n mynnu

bod defnyddwyr sbectrwm perthnasol yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol ar feysydd electromagnetig (EMF).

Tegwch i gwsmeriaid – helpu cwsmeriaid bob amser

- 3.8 Mae'n hollbwysig bod pobl yn cael eu trin yn deg gan eu darparwyr, ac yn gallu ymddiried mewn marchnadoedd i weithredu'n onest. Yn 2020-21, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed o ran y nod hwn y llynedd, pan ymrwymodd yr holl brif gwmnïau band eang, ffôn a theledu drwy dalu i'n hymrwymiaidau newydd ynghylch Tegwch i Gwsmeriaid ym mis Mehefin 2019.
- 3.9 **Diogelu hawliau cwsmeriaid a'u helpu i newid.** Ym mis Rhagfyr 2019, roeddem wedi amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gweithredu adran hawliau cwsmeriaid y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau arfaethedig i reolau rheoleiddio ynghylch newid gwasanaeth a chludo rhifau, hyd contractau pan werthir ffonau symudol gyda chysylltiad â contract amser sgwrsio (a elwir yn contractau cysylltiedig wedi'u rhannu), cloi'r ffôn, a sicrhau bod yr ohebiaeth ynghylch gwasanaethau cyfathrebu ar gael mewn fformat hygyrch i gwsmeriaid anabl. Rydym yn trafod gyda'r Llywodraeth pryd y dylid cyflwyno elfennau hawliau defnyddwyr y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd yng nghyfraith y DU. Gan ddibynnu ar pryd y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei datganiad ar drosi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd, rydym yn disgwyl cyhoeddi ein datganiad yn Ch2, gyda'r gwaith o weithredu hyn yn digwydd ar ôl y dyddiad hwn. Rydym hefyd yn disgwyl ymgynghori yn Ch2 ar newidiadau pellach i'r ffordd mae cwsmeriaid yn gallu newid eu llinell dir a'u band eang.
- 3.10 **Helpu rhagor o gwsmeriaid i gael cytundebau tecach ar gyfer band eang:** Rydym yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod rhagor o gwsmeriaid band eang yn cael cytundebau teg. Byddwn yn monitro'r canlyniadau i gwsmeriaid ar ôl i'r ymrwymiaidau prisio gwirfoddol gan y diwydiant – a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019 – gael eu rhoi ar waith. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn Ch2.
- 3.11 **Fforddiadwyedd gwasanaethau band eang:** Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn monitro ym mhle mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebu, yn enwedig o ran band eang. Os byddwn yn canfod angen posib i gyflwyno tariff wedi'i dargedu i warchod y rheini mewn cartrefi incwm isel, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ystyried sut gellid gweithredu tariff o'r fath. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn Ch3.
- 3.12 Byddwn hefyd yn parhau i weithio ar y canlynol:
- rhoi arweiniad i'r diwydiant ynghylch sut dylid trin defnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus, gyda datganiad yn Ch1, gan gydnabod y camau a gymerwyd gan y diwydiant yn ystod argyfwng y coronafeirws;
 - sicrhau bod tegwch yn rhan ganolog o fusnesau darparwyr, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn Ch4 am y cynnydd y mae'r diwydiant wedi'i wneud o ran ei ymrwymiaidau tegwch, a'r ffordd mae wedi ymateb i'r pandemig presennol; a
 - sicrhau bod data yn gweithio i gwsmeriaid, ymgynghori ynghylch cyfathrebu agored, a chyhoeddi papur trafod ar brisiau wedi'u personoli, yn Ch2.

Cefnogi darlledu yn y DU – cynnal amgylchedd cyfryngau sy'n cefnogi ein cymdeithas

- 3.13 Mae gwasanaethau darlledu sy'n darparu cynnwys o safon uchel i ddiddanu, addysgu a hysbysu'r cyhoedd, ochr yn ochr â newyddion o safon uchel sy'n darparu'r wybodaeth gywir, yn hollbwysig. Byddwn yn cefnogi sector darlledu bywiog y DU i sicrhau buddion i'r DU i gyd. Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn arbennig, yw congIfaen cyfryngau'r DU fel ffynonellau newyddion a materion cyfoes dibynadwy. Mae gan Ofcom ddyletswydd i fonitro perfformiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan sicrhau bod pob un yn cyflawni ei gylch gwaith. Gallwn hefyd wneud argymhellion i'r Llywodraeth i gynnal ac i gryfhau'r system.
- 3.14 **Cyfrannu at y drafodaeth ynghylch system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.** Rydym eisoes wedi dechrau ar adolygiad eang i roi cyngor i Lywodraeth y DU ar rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dirwedd cyfryngau bresennol sy'n newid yn gyflym. Rydym wedi bod yn hwyluso 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' gyda'r diwydiant, llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig, gwylwyr a gwrandawyr. Bydd y gwaith hwn yn ystyried sut mae sicrhau bod gan y DU system gadarn ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n parhau i addasu i anghenion y gynulleidfa. Rydym yn edrych ar y tueddiadau ehangach a fydd yn siapio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r ffyrdd gwahanol y gellid ei ddarparu.
- 3.15 Mae ein gwaith ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysicach nawr nag erioed: mae'r pandemig coronafeirws yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys dibynadwy o ansawdd uchel sy'n gweithio i gynulleidfaedd ar hyd a lled y DU, ond gallai hefyd gyflymu newidiadau strwythurol yn y farchnad honno. Ym mis Chwefror³, roeddem wedi nodi cwmipas ein gwaith, gan ganolbwyntio ar dair elfen: beth ddylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gyflawni, sut dylid ei gyflawni, a sut dylid ei ariannu. Mae'r coronafeirws a'r cyfnod o gyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol ar y sector darlledu, ac mae wedi bod yn gyfnod unigryw i weld y rôl y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a sefydliadau eraill yn y cyfryngau, yn ei chwarae yn ein bywydau. Rydym yn ystyried yn awr sut i ail-lunio'r ddadl bresennol er mwyn cynnig tystiolaeth am ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a dealltwriaeth o hynny. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd, y diwydiant a rhanddeiliaid yn dal wrth galon y gwaith yma. Bydd y sefyllfa bresennol yn arafu'r gwaith hwn o'i gymharu â'n cynlluniau blaenorol, ond byddwn yn parhau i weithio'n frwd ar y mater hwn, ac yn ceisio ymgynghori cyn diwedd y flwyddyn.
- 3.16 Bydd ein gwaith i gefnogi darlledu yn y DU hefyd yn cynnwys:
- adolygu BBC Studios, gan gyhoeddi canfyddiadau yn Ch4 ynghylch sut mae'r BBC yn gweithredu ein gofynion Masnachu a Gwahanu;
 - cynnal ein hadolygiad blynyddol o berfformiad y BBC yn Ch3;
 - parhau i fynd i'r afael ag achosion safonau cynnwys wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn; a

³ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0016/192103/sgrin-fach-trafodaeth-fawr-adolygiad-pum-mlynedd.pdf

- parhau i herio'r diwydiant darlledu i wella amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ystod Ch3, byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ynghylch amrywiaeth mewn teledu a radio.

Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau – mae angen i bobl allu cadw'n ddiogel a chadw'r cysylltiad

- 3.17 Mae cyfathrebu ar-lein yn rhan hanfodol o fywydau llawer o bobl, ac yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, ochr yn ochr ag ymgysylltu â busnesau. Bydd ein gwaith yn yr elfen hon yn canolbwyntio ar baratoi at y rheoliadau newydd a fydd yn cael eu cyflwyno, a hybu dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymgysylltu ar-lein.
- 3.18 **Sicrhau bod Llwyfannau Rhannu Fideos yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr.** Mae'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) newydd yn cyflwyno gofynion rheoleiddio newydd i lwyfannau rhannu fideos ynghylch cyfathrebiadau masnachol, diogelu plant rhag cynnwys niweidiol, a diogelu'r cyhoedd rhag cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n cymell casineb neu drais. Mae Llywodraeth y DU wedi penodi Ofcom i fod yn rheoleiddiwr dros dro ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos (cyn y drefn ymddygiad a chynnwys niweidiol ar-lein). Rydym yn datblygu canllawiau rheoleiddio ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos a sefydlwyd yn y DU, a byddwn yn ymgynghori arnynt yn Ch3 2020/21, ar ôl i'r deddfwriaeth angenrheidiol gael ei phasio. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr rhyngwladol i helpu i ddiogelu cwsmeriaid yn y DU rhag cynnwys niweidiol ar-lein ar yr holl Llwyfannau Rhannu Fideos.
- 3.19 **Cyfrannu at ddatblygu deddfwriaeth newydd ar ymddygiad a chynnwys niweidiol ar-lein, a pharatoi ar gyfer pwerau rheoleiddio newydd posib.** Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu penodi Ofcom fel y rheoleiddiwr newydd ar gyfer ymddygiad a chynnwys niweidiol ar-lein. Os cadarnheir hynny, byddai'r cyfrifoldebau newydd arfaethedig hyn yn ehangu ein cylch gwaith yn sylweddol, a bydd paratoi tuag atynt yn elfen bwysig iawn yn 2020/21 a thu hwnt. Byddai'r cyfrifoldebau newydd yn gofyn am sgiliau ac arbenigedd ychwanegol, systemau technegol newydd a strwythurau trefniadaethol diwygiedig. Bydd amseriad y gwaith hwn yn dibynnu ar broses Llywodraeth y DU ar gyfer gwneud penderfyniadau terfynol a chyflwyno deddfwriaeth newydd. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddarparu cyngor technegol a mewnbwn i broses datblygu polisiau'r Llywodraeth. Byddwn yn helpu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau drwy wneud gwaith ymchwil pellach yng nghyswllt profiadau pobl o gynnwys niweidiol ar-lein a'u pryderon am hynny, a pha mor effeithiol yw'r dulliau presennol i gadw defnyddwyr y rhyngwlad yn ddiogel ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwn fel rhan o'n rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.
- 3.20 Byddwn hefyd yn gweithio ar y canlynol drwy gydol y flwyddyn:
- deall profiadau pobl ar-lein a helpu defnyddwyr y rhyngwlad i ddiogelu eu hunain rhag niwed drwy ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, a chyhoeddi ein hadroddiad Ein Gwlad Ar-lein yn Ch1; a

- deall gwasanaethau cyfathrebu newydd sydd ar gael ar-lein (gwasanaethau cyfathrebu rhyngpersonol sy'n annibynnol ar rifau - NIICS), gan weithio gyda'r diwydiant i sicrhau ymwybyddiaeth o ddulliau rheoleiddio newydd yn yr elfen hon.

Galluogi rhwydweithiau cadarn a diogel – yn barod i ymateb i heriau presennol a heriau yn y dyfodol

- 3.21 Mae pobl ar hyd a lled y DU yn disgwyl ac yn dibynnu ar rwydweithiau cadarn a diogel heddiw, ac yn y dyfodol. Mae gan Ofcom rôl allweddol i'w chwarae, ochr yn ochr â chyfranwyr eraill, er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.
- 3.22 **Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu canlyniadau'r Adolygiad o'r Gadwyn Gyflenwi Telegyfathrebiadau**, gan weithio gyda'r diwydiant, gan gynnwys cyflenwyr offer. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r diwydiant i fonitro risgiau posib, gan roi arweiniad a chynghor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth newydd y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'w chyflwyno eleni.
- 3.23 **Byddwn yn ceisio sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau, sydd o fewn cwmpas Gofynion Diogelwch Telegyfathrebiadau Llywodraeth y DU, yn dilyn y canllawiau perthnasol.** Byddai deddfwriaeth arfaethedig y Llywodraeth yn cynyddu pwerau gorfodi Ofcom. Byddwn yn parhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau presennol yn y cyfamser.
- 3.24 **I gefnogi ein rôl wrth iddi gynyddu, byddwn yn adeiladu canolfan ragoriaeth ar gyfer arbenigedd mewn diogelwch a chadernid.** Drwy gydol 2020/21, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gallu seiberddiogelwch, ac yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau. Bydd hyn yn cynyddu ein sgiliau a'n gallu i helpu i sicrhau bod rhwydweithiau'n gadarn ac yn ddiogel, ac yn cael eu gwarchod rhag cyfnodau segur neu ymosodiadau seiber.
- 3.25 Byddwn hefyd yn gwneud y canlynol:
- gweithio gyda'r diwydiant drwy gydol y flwyddyn i ganfod a chau bylchau o ran safonau ac arferion gorau. Byddwn yn edrych yn benodol ar rwydweithiau cydgyfeirio, sefydlogrwydd rhwydweithiau a chyfnodau segur ar rwydweithiau, a
 - parhau i gydweithio â darparwyr cyfathrebiadau a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i gynnal rhaglen profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST). Mae hyn yn asesu pa mor dda y gall cwmni ddelio ag ymosodiad ar sail technegau a ddefnyddir gan droseddwyr seiber a gwladwriaethau gelyniaethus.

Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol, drwy gyfnod o newid cyflym o bosib o ran nifer y llythyrau a'r parseli

- 3.26 Mae gwasanaethau post yn hollbwysig i e-fasnach, ac mae'n ffordd bwysig o gyfathrebu i bobl ac i fusnesau. Fodd bynnag, mae'r sector yn wynebu newid sylweddol, wrth i nifer y parseli gynyddu a nifer y llythyrau leihau. Gallai'r argyfwng presennol gyflymu'r duedd

hirdymor yma, gan roi rhagor o bwysau ar y sector hyd yn oed wrth iddo barhau i addasu a datblygu.

3.27 Bydd **deall anghenion defnyddwyr gwasanaethu post** yn ffocws allweddol ar gyfer 2020/21. Mae'r twf yn nifer y parseli a'r gostyngiad yn nifer y llythyrau yn dal i effeithio ar y farchnad bost. Felly, rydym yn asesu a yw'r farchnad bost yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr. Byddwn yn cyhoeddi'r asesiad hwn yn ystod Ch3 2020/21.


3.28 Drwy gydol y flwyddyn, byddwn hefyd yn parhau i weithio'n frwd ar y canlynol:

- monitro perfformiad ariannol a gweithredol y Post Brenhinol, gan adrodd yn ôl yn Ch3; ac
- ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post yn y dyfodol.

Parhau i arloesi o ran rheoleiddio a data i helpu pobl a busnesau – parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithlon

3.29 Mae'r marchnadoedd mae Ofcom yn eu rheoleiddio yn newid yn gyflym ac maen nhw'n arloesol iawn, sy'n creu cyfleoedd a heriau newydd i ddefnyddwyr. Mae sicrhau bod ein gwaith yn edrych tua'r dyfodol ac arloesedd yn hollbwysig i'n llwyddiant. Bydd angen i ni arloesi ac addasu i newidiadau rydym yn eu gweld yn y byd ar ôl argyfwng y coronafeirws, ac ymateb yn effeithiol i heriau a meysydd cyfrifoldeb newydd, fel rheoleiddio ymddygiad a chynnwys niweidiol ar-lein.

3.30 Mae'r diagram isod yn dangos sut rydym yn strwythuro ein dull gweithredu mewnol o ran arloesi, ochr yn ochr â darparu rhestr ddangosol o'r prosiectau arloesi rydym yn eu cynnal. Bydd arloesi'n gyffredinol, a'r prosiectau hyn, yn cefnogi canlyniadau gwell i ddefnyddwyr a busnesau ar draws yr holl raglen waith hon.



3.31 Yn 2020/21, byddwn yn:

- ystyried y rôl fwyaf priodol i reoleiddwyr er mwyn helpu'r Llywodraeth i gyflawni ei tharged allyriadau sero-net ar gyfer 2050;
- cydweithio â busnesau, sefydliadau a rheoleiddwyr eraill i ddatblygu sgiliau ac i gyflwyno prosesau rheoleiddio arloesol;
- gwella galluedd a sgiliau data Ofcom; a
- mabwysiadu a gwreiddio dulliau newydd ac sy'n seiliedig ar ddata i lunio polisiau ar draws ein gwaith.

Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant – helpu'r DU i adlewyrchu ei hun

3.32 Yn ein barn ni, mae rhoi pwyslais cryf ar amrywiaeth a chynhwysiant yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gynrychioli anghenion pobl ar draws y DU. Rydym yn cydnabod bod gan Ofcom fwy i'w wneud, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr, i sicrhau bod gennym weithlu sy'n cynrychioli'r DU ac yn edrych ar faterion mewn ffordd gynhwysol.

3.33 Byddwn yn cyhoeddi:

- strategaeth wedi'i diweddarau ar gyfer ein gwaith mewnol ar amrywiaeth a chynhwysiant yn Ch3, gan gynnwys targedau amrywiaeth; ac
- ein hadroddiad Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau ac Ethnigrwydd yn Ch4.

3.34 Rydym hefyd yn credu bod darlledu o fudd i bobl pan fydd yn adlewyrchu ein cymdeithas gyfoethog ac amrywiol, gan ddefnyddio'r doniau gorau o bob rhan o'n cymunedau. Byddwn yn cyhoeddi ein:

- hadroddiadau blynyddol ar amrywiaeth mewn teledu a radio yn Ch3;
- ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad y BBC, fel y nodir uchod; a
- cod diwygiedig i ddarlledwyr ar wneud gwasanaethau teledu ar-alw yn hwylus i bob cynulleidfa, er enghraifft drwy isdeitlau neu ddisgrifiadau sain, a ddisgwylir yn Ch4.

Darparu cefnogaeth drwy gyfnod pontio'r broses o ymadael â'r UE, ac adeiladu ar ein cysylltiadau rhyngwladol

3.35 Byddwn yn parhau i roi cyngor technegol annibynnol i Lywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, ac agweddau eraill ar ein perthynas â'r UE a thu hwnt yn y dyfodol, sy'n berthnasol i'n sectorau. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n cefnogaeth i randdeiliaid y diwydiant a defnyddwyr, wrth baratoi ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau posib ar ôl y cyfnod pontio.

3.36 Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein perthynas ddwyochrog â sefydliadau cyfatebol perthnasol o amgylch y byd, ac yn dal yn rhan o'r trafodaethau rhanbarthol a byd-eang allweddol am reoleiddio. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gynrychioli'r DU ar faterion cyfathrebu yn rhyngwladol, pan fydd hynny'n berthnasol. Er enghraifft, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn grwpiau amlochrog i gyflawni ein hamcanion sbectrwem ac i ddiogelu buddiannau'r DU.

Bydd ein gwaith parhaus ehangach yn parhau, gan gefnogi sectorau cyfathrebu effeithiol a chanlyniadau gwell i gwsmeriaid

- 3.37 Mae ein rhaglen ehangach o waith parhaus yn chwarae rhan yr un mor bwysig o ran cyflawni ein dyletswyddau a'n nodau, ac mae'n sail i'r ffordd rydym yn rheoleiddio ein sectorau. Mae'r rhaglen hon o waith parhaus yn orfodol, ac wedi'i phennu mewn deddfwriaeth. Mae'n cynnwys rheoli adnoddau prin fel rhifau ffôn, monitro'r BBC, trwyddedu defnyddwyr sbectrwm, cynnal ymchwil a chyhoeddi gwybodaeth am brofiadau cwsmeriaid o wasanaethau cyfathrebu. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gwneud gwaith dewisol i sicrhau bod cyfathrebiadau yn gweithio i bawb.
- 3.38 Mae ein rhaglen waith ehangach a'r meysydd blaenoriaeth yn seiliedig ar ein hymrwymiad i feithrin diwylliant o gydymffurfio â safonau a rheoliadau ymhlith darparwyr cyfathrebiadau yn y DU, ac ar gyfer offer di-wifr sydd ar gael ar y farchnad yn y DU. Rydym yn monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth, yn ymgysylltu â'r diwydiant ac yn cymryd camau gorfodi pan fydd angen, gan wneud yn siŵr bod ein penderfyniadau'n cael eu gorfodi a bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu rhag arferion niweidiol. Rydym hefyd yn monitro cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â rhwymedigaethau diogelwch rhwydweithiau er mwyn lleihau'r risg o dorri rhwymedigaethau.
- 3.39 Mae hyn yn golygu gorfodi ein rheolau i wneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn cael eu gwarchod, a bod darparwyr cyfathrebiadau yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau rheoleiddio.

4. Cyflawni ar gyfer pobl ar draws y DU

- 4.1 I fod yn rheoleiddiwr effeithiol, mae'n bwysig ein bod yn nodi'r mathau o ganlyniadau rydym eisiau helpu i'w sicrhau drwy ein gwaith.⁴ Mae gwneud hynny hefyd yn ein helpu i asesu i ba raddau rydym wedi cyflawni ein hamcanion, a beth arall gellir ei wneud.
- 4.2 Mae rhestr isod o'r mesurau a fydd yn ein helpu i asesu i ba raddau mae ein gweithredoedd wedi bod o fudd i bobl ac i fusnesau. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu dylunio i fod yn uchelgeisiol ac, mewn nifer o achosion, gall gymryd nifer o flynyddoedd i'w cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.
- 4.3 Byddwn yn adrodd am ein perfformiad yn Adroddiad Blynyddol 2021, ac yn parhau i gyhoeddi ystod eang o fesurau manylach.⁵ Rydym hefyd yn disgwyl cyhoeddi adolygiadau ar gyfer detholiad o brosiectau blaenoriaeth bob blwyddyn.

Themâu strategol a meysydd gwaith	Y mesurau rydym eisiau eu gweld
Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi (band eang)	<ul style="list-style-type: none"> Gostyngiad yn nifer y cartrefi sy'n methu cael 10 Mbit yr eiliad Cyflwyno ffeibr llawn / yn gallu delio â gigabits yn eang Buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ffeibr llawn ac sy'n gallu delio â gigabits Mwy o gartrefi gyda mwy nag un rhwydwaith ar gael sy'n gallu delio â gigabits Lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymysg cwsmeriaid
Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi (symudol)	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yng nghyfran daearyddiaeth y DU sy'n cael darpariaeth symudol o ansawdd da gan bob gweithredwr rhwydwaith gwasanaeth symudol (er enghraifft, yn unol â'r ymrwymiad i ddarparu'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir) Cyflwyno 5G yn sylweddol a'r buddsoddiad mewn gwasanaethau symudol sydd ei angen i gynnig y profiad mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl yn y tymor canolig i'r tymor hir Lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymysg cwsmeriaid
Tegwch i Gwsmeriaid	<ul style="list-style-type: none"> Lefelau uchel o fodlonrwydd ymysg cwsmeriaid o ran gwerth am arian

⁴ Rydym yn ymwybodol bod llawer o'r hyn yr hoffem ei gyflawni'n dibynnu hefyd ar nifer o ffactorau allanol.

⁵ Mae'r rhain yn cynnwys, y rheini a gyhoeddir yn:

- Yr adroddiadau seilwaith a Cysylltu'r Gwledydd: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research>
- Adroddiadau Cymharu Ansawdd Gwasanaethau: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/145525/comparing-service-quality-2018.pdf
- Diweddariadau monitro blynyddol ar y farchnad bost: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/145525/comparing-service-quality-2018.pdf
- Cyfryngau'r Genedl: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/160650/cyfryngau-cenedl-2019-cymru.pdf
- Adroddiadau ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0037/149869/agweddau-oedolion-au-defnydd-o-gyfryngau.pdf
- Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant 2018-2022 Ofcom: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0013/112540/rhaglen-amrywiaeth-chynhwysiant.pdf

	<ul style="list-style-type: none"> Lefelau uchel o fodlonrwydd o ran ymdrin â chwynion <p>Byddwn yn monitro:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfran y cwsmeriaid sydd allan o gontract Cyfran y bobl sy'n ei chael hi'n anodd gallu fforddio gwasanaethau cyfathrebu
Cefnogi darlledu yn y DU	<ul style="list-style-type: none"> Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys, gan gynnwys yn y gwledydd a'r rhanbarthau Canfyddiadau uchel ymysg cynulleidfaoedd am ansawdd teledu Lefelau uchel o ran lefelau cyrhaeddiad a gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Llawer o fesurau i ddiogelu'r gynulleidfa yn sgil safonau cynnwys
Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl	<p>Byddwn yn monitro:</p> <ul style="list-style-type: none"> Lefelau ymwybyddiaeth defnyddwyr o offer ar-lein a'u defnydd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ar-lein
Galluogi rhwydweithiau cadarn a diogel	<p>Byddwn yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Canfod bylchau o ran arferion gorau a safonau ar gyfer rhwydweithiau cadarn, a chynnig ffyrdd o ddelio â'r bylchau hynny Monitro cydymffurfiad â chanllawiau'r Llywodraeth ar ofynion diogelwch telegyfathrebiadau
Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol	<p>Byddwn yn monitro:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol Pa mor fodlon yw defnyddwyr â gwasanaethau post
Parhau i arloesi o ran ein dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio a data	<p>Yn fewnol, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal dealltwriaeth o effaith technolegau presennol, technolegau sy'n cael eu datblygu a thechnolegau'r dyfodol Gweithio ar draws y sefydliad er mwyn gwella ein gallu i gofnodi, storio, rhannu, dadansoddi a chael gwybodaeth o ddata Ystyried cyfleoedd i arloesi wrth ddatblygu polisïau
Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant	<p>Yn fewnol, mae ein strategaeth a gyhoeddwyd yn 2015 yn gosod targedau i ni sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cydbwysedd o 50:50 rhwng y rhywiau 40% o fenywod ar lefel uwch 13% o gydweithwyr ar lefel uwch yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig

Nodau ar draws y DU

4.4 Mae Ofcom yn rheoleiddio ar gyfer y DU i gyd. I gefnogi hyn, rydym wedi cael ein sefydlu i gynrychioli a gweithredu ar fuddiannau pobl ar draws y DU, gan gynnwys drwy'r canlynol:

- mae ein pwyllgorau cyngori cenedlaethol yn rhoi cyngor i Ofcom ar fuddiannau a barn pobl sy'n byw ym mhedair gwlad y DU, ac maent yn rhan bwysig o'n gwaith datblygu polisi;
- mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ar draws y DU hefyd yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau profiadol yn cynrychioli pob un o wledydd y DU; ac
- mae gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu gynrychiolwyr ar gyfer pob un o'r gwledydd, ac mae'n rhoi sylw'n arbennig i anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl ar incwm isel.

- 4.5 Mae Ofcom wedi ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd yng Nghymru ac yn yr Alban. Disgwylir y cytunir ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth tebyg gyda'r weinyddiaeth yng Gogledd Iwerddon gan fod datganoli bellach wedi cael ei adfer. Rydym yn parhau i ofyn am farn a mewnbwn llywodraethau a deddfwrfeydd pob gwlad.
- 4.6 Mae Bob Downes yn parhau yn aelod bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer yr Alban. Penodwyd David Jones yn aelod bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2019. Disgwylir y bydd aelod yn cael ei benodi ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan fod y llywodraeth ddatganoledig bellach wedi cael ei hadfer. Yn y cyfamser, bydd Bob Downes yn parhau i weithredu fel aelod dros dro ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r aelodau hyn o'r bwrdd yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau a gwaith Ofcom, gan sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein nodau ar draws y DU.

Byddwn yn ymateb i heriau penodol yng ngwledydd y DU

- 4.7 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid a busnesau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, yn achosi heriau penodol. Mae nifer anghymesur o'r ardaloedd hyn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond mae heriau tebyg yn effeithio ar rai o ranbarthau Lloegr hefyd. Dylai gwasanaethau darlledu ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws holl ranbarthau a gwledydd y DU, ac adlewyrchu amrywiaeth y cynulleidfaoedd hynny.
- 4.8 **Ymateb i'r heriau hyn.** Wrth ymateb i'r heriau hyn, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig, y deddfwrfeydd (pwyllgorau ac aelodau) a busnesau ym mhob gwlad yn y DU. Mae hyn yn cynnwys darparu data a chynghor technegol i gynlluniau band eang sefydlog a/neu symudol y llywodraethau datganoledig perthnasol, ac yn ein hasesiad o berfformiad y BBC yn erbyn yr amodau sy'n benodol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ei Drwydded Weithredu. Byddwn yn gweithio gyda phob un o'r darlledwyr a'r gweinyddiaethau datganoledig i helpu'r sector creadigol i ymateb ac i ddod dros effeithiau'r coronafeirws.
- 4.9 **MG ALBA a'r iaith Gymraeg.** Yng Nghymru ac yn yr Alban, byddwn yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol o ran MG ALBA, ac i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd briodol. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a fydd yn rhoi'r mwyaf o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, ac a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

4.10 **Cydlynu ag Iwerddon.** Wrth i'r DU adael yr UE, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon er mwyn cydlynu a chynnal gwasanaethau cyfathrebu trawsffiniol.

4.11 **Cymunedau lleol.** Ein nod yw sicrhau bod ein polisiâu'n ystyried yr holl gymunedau yn Lloegr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth, ASau lleol ac awdurdodau lleol.

5. Sicrhau gwerth am arian

Byddwn yn parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ariannol

- 5.1 Ers Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn 2015, rydym wedi sicrhau arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU yn gosod cap ar wariant cyllideb Ofcom.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, ar sail debyg am debyg, mae ein cyllideb wedi aros yn wastad mewn termau arian parod, sy'n 7% o ostyngiad mewn termau real. Dim ond ar gyfer dyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud â Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang, seiberddiogelwch a'r BBC y mae'r gyllideb wedi cael ei haddasu.

Cap gwariant ar gyfer 2020/21

- 5.3 Ar gyfer 2020/21, mae Llywodraeth y DU wedi gosod cap gwariant o £131.9m. Mae hyn yn cynnwys cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant, yn ogystal â chyllid ychwanegol ar gyfer gwaith ar rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang, a'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer llwyfannau rhannu fideos. Bydd cyllid i sefydlu'r drefn ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos a chyfrifoldebau ar-lein cysylltiedig yn dod o dderbynebâu'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr – nid y rheini rydym ni'n eu rheoleiddio fydd yn ariannu hynny.
- 5.4 Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae ein costau'n cael eu neilltuo i sectorau rhanddeiliaid, ac mae'r rhaniad wedi'i gyhoeddi yn ein tablau tariff ar gyfer 2020/21.

Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2020/21

- 5.5 Rydym yn adolygu'n gyson y ffordd rydym yn gweithio, er mwyn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau a'n dyletswyddau statudol.
- 5.6 Mae ein hadnoddau a'n sgiliau'n cael eu hanelu at gyflawni ein cynlluniau a'n dyletswyddau drwy gynllunio strategol, a drwy ddelio â'n cyllidebau a'n rhagolygon mewn ffordd integredig. Rydym hefyd yn parhau i gynyddu ein harbedion drwy ddefnyddio prosesau cystadleuol i sicrhau'r prisiau a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr.
- 5.7 Mae gwella ein swyddfeydd wedi arwain at amgylchedd gwaith sy'n fwy hyblyg ac ystwyth ar gyfer ein gweithlu ac mae wedi lleihau ein hól troed yn Llundain. Yn y pen draw bydd hyn yn arwain at arbed o leiaf £3m y flwyddyn, ar yr un pryd â darparu gweithle sy'n fwy addas ar gyfer cydweithio, a gwella ein gallu i ymateb yn hyblyg yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn TGCh i gefnogi trefniadau gwaith mwy ystwyth a'r gallu i weithio o wahanol leoliadau, gan gynnwys y cartref.

A1. Beth rydym yn ei wneud

- A1.1 Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu ac yn eu diogelu rhag arferion niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.
- A1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i Senedd y DU ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn darparu cyngor technegol i Lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y DU) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

- A1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol.⁶ Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

- A1.4 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:
- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
 - sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o'r sbectrwm radio;
 - sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd da yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
 - sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;

⁶ Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017, a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- mae'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiad â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

A1.5 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.6 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i:

- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol, fel y nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998, a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

A1.7 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

A2. Gwaith parhaus

A2.1 Mae ein rhaglen ehangach o waith parhaus yn chwarae rhan yr un mor bwysig o ran cyflawni ein dyletswyddau a'n nodau, ac mae'n sail i'r gwaith o reoleiddio ein sectorau.

Cynnal rhwydweithiau cyfathrebu effeithiol a galluogi i ddefnyddio sbectrwm

A2.2 Mae sicrhau bod gan bobl a busnesau rhwydweithiau cyfathrebu sy'n gwasanaethu eu hanghenion yn rhan ganolog o'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod y seilwaith ffisegol a sbectrwm yn effeithiol, yn gadarn ac yn barod ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â chynnal y systemau sydd wedi cefnogi cyfathrebu yn y DU tan nawr.

- **Symud i linellau digidol.** Wrth i wasanaethau ffeibr gael eu cyflwyno ac wrth i ddarparwyr cyfathrebiadau gynllunio i roi'r gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus copr (PSTN), bydd mwy a mwy o gwsmeriaid a busnesau yn symud i linellau digidol lle bydd galwadau llais yn cael eu cludo dros fand eang. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi yn sgil y mudo hwn yn cael eu nodi ac yn cael sylw, er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed ac er mwyn amharu cyn lleied â phosib arnyn nhw.
- **Diwygio Openreach yn effeithiol.** Rydym yn monitro gwahanu Openreach yn gyfreithiol oddi wrth BT ac yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaid BT ac Openreach ag ymrwymadau BT Group. Rydym yn monitro effaith y trefniadau gwahanu ar ein hamcanion ehangach, fel y nodwyd yn Adolygiad Strategol 2016 o Gyfathrebiadau Digidol, er mwyn galluogi mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy drwy fuddsoddi mewn rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yn 2021/22 ar y canlyniadau cyffredinol, a fydd yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i: sicrhau budd i gwsmeriaid, mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch cystadleuaeth, a hybu buddsoddiadau newydd mewn rhwydweithiau.
- **Monitro ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol.** Byddwn yn parhau i fonitro darparu a thrwsio gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol copr a ffeibr.
- **Awdurdodi'r defnydd o sbectrwm.** Mae Ofcom yn darparu cyngor a chymorth i ystod eang o ddefnyddwyr sbectrwm. Mae ein timau sbectrwm arbenigol yn dadansoddi'r dechnoleg yn fanwl ac yn defnyddio mesuriadau go iawn i wella sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio a'i rannu. Rydym yn ymchwilio i adroddiadau o ymyriant radio niweidiol (gan gynnwys i systemau cyfathrebu ynghylch diogelu bywyd), ac rydym yn defnyddio camau gorfodi rhagweithiol ac wedi'u targedu i nodi a datrys achosion o ddefnyddio sbectrwm heb awdurdod ac er mwyn atal gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio.
- **Dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm.** Rydym yn rhyddhau gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys mapiau sbectrwm daearyddol rhyngweithiol, er mwyn galluogi busnesau a sefydliadau i ddeall

yn well sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio. Rydym hefyd yn dadansoddi'r defnydd a wneir o sbectrwm ar draws sectorau penodol er mwyn cefnogi ein hadolygiadau strategol a llywio ein polisiau.

- **Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.** Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod sbectrwm radio'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Rydym yn gwneud hyn drwy gynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnwys lloeren, cyfleustodau a thrafnidiaeth.
- **Darparu cefnogaeth arbenigol.** Mae ein timau sbectrwm hefyd yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a gwladwriaethol mawr yn y DU, ac mae'n rhoi trwyddedau radio i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr er mwyn galluogi mynediad i sbectrwm a hyrwyddo gwasanaethau arloesol.
- **Dyrannu a rheoli rhifau ffôn.** Mae Ofcom yn dyrannu rhifau ffôn i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i gwsmeriaid a busnesau. Rydym yn sicrhau bod y rhifau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithlon, sy'n creu llai o aflonyddwch ac yn lleihau costau.
- **Gwasanaethau cyffredinol blaenorol.** Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd yn mynnu bod aelod wladwriaethau'n cynnal adolygiadau bob tair blynedd o'r gwasanaethau cyffredinol blaenorol maent yn dymuno eu cadw. Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r fath erbyn 21 Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn mynnu bod Ofcom yn cynnal yr adolygiadau hyn. Byddwn felly'n dechrau adolygu rhwymedigaethau'r gwasanaeth cyffredinol blaenorol, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus, biliau manwl a llyfrau ffôn wedi'u hargraffu.

Diogelu a deall cwsmeriaid

A2.3 Mae cwsmeriaid yn y DU yn dal wrth galon ein gwaith. Byddwn yn parhau i weithio i ddiogelu pobl ac i ddeall eu hanghenion.

- **Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi.** Rydym yn parhau â'n gwaith i wella mynediad at wasanaethau cyfathrebu yn y lleoliadau mwyaf anghysbell a'r rhai anoddaf eu cyrraedd. Bydd ein gwaith ar y gwasanaeth band eang cyffredinol a Rhwydwaith Gwledig a Rennir y cwmnïau symudol yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth ac yn cynhyrchu dadansoddiad o ansawdd uchel er mwyn cyfrannu at benderfyniadau a pholisiau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth er mwyn gwella eu gwasanaethau cyfathrebu.
- **Gwneud yn siŵr bod lleisiau cwsmeriaid yn cael eu clywed.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ein tîm cyswllt defnyddwyr, sy'n rhoi cefnogaeth a chynghor i bobl ac i fusnesau. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag ystod eang o grwpiau defnyddwyr ac yn parhau i gryfhau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, y corff defnyddwyr annibynnol ar gyfer y sector telegyfathrebu. Byddwn yn cynyddu'r gyllideb sydd ar gael i'r panel ar gyfer 2020/21, gan ei alluogi i edrych ar raglen waith ehangach ac eirioli ar ran cwsmeriaid gyda llais cryfach.

- **Sgamiau a galwadau niwsans.** Er mwyn helpu i leihau galwadau niwsans a sgamiau, rydym yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau'r DU i amharu ar y galwadau hyn a'u hatal rhag cyrraedd cwsmeriaid. Rydym yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi eraill, fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, cyrff buddiannau defnyddwyr a rheoleiddwyr rhyngwladol, er mwyn rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau. Er mwyn mynd i'r afael â sgamiau'n benodol, rydym wedi bod yn cydweithio â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol drwy gefnogi "Stop Scams UK" – cynllun sy'n ceisio dod â gwasanaethau ariannol, darparwyr cyfathrebiadau a sefydliadau cyfryngau cymdeithasol ynghyd, i gydlynu ymateb wedi'i arwain gan y diwydiant i sgamiau. Cafodd y rhaglen hon ei lansio'n swyddogol gan y diwydiant ym mis Mawrth 2020.
- **Cymharu ansawdd gwasanaethau.** Mae adroddiad blynyddol Ofcom, Dewis y Darparwr Band Eang, Symudol a Llinell Dir Gorau, yn edrych ar ansawdd gwasanaethau darparwyr cyfathrebiadau. Byddwn hefyd yn parhau i gynhyrchu cyhoeddiadau chwarterol am gwynion a gyflwynir i Ofcom yn erbyn y darparwyr teledu drwy dalu a thelegyfathrebiadau mwyaf.
- **Cefnogi cwsmeriaid yn y marchnadoedd cyfathrebiadau.** Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y cynlluniau y mae Ofcom yn eu cymeradwyo neu'n eu goruchwylio, fel cyrff dulliau amgen o ddatrys anghydfod.

Cefnogi darlledu yn y DU

A2.4 Mae ein gwaith i gefnogi'r diwydiant darlledu'n cynnwys gwaith trwyddedu Ofcom a sicrhau y cydymffurfir â safonau darlledu. Rydym hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr bod y gofynion sydd ar y BBC yn cael eu diwallu, a byddwn yn monitro effaith y BBC ar gystadleuaeth.

- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio.** Byddwn yn parhau i gyhoeddi trwyddedau ar gyfer pob gwasanaeth teledu masnachol lleol a chenedlaethol yn y DU, a phob gwasanaeth radio masnachol a chymunedol analog a digidol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau ar gael ledled y DU. Rydym yn gallu gosod cosbau pan nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion trwydded, ac, mewn achosion difrifol, rydym yn gallu dirymu trwyddedau.
- **DAB ar raddfa fach.** Gan ein bod wedi cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach, byddwn yn hysbysebu'r trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach cyntaf cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.
- **Monitro'r BBC.** I ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ac i asesu bod y BBC yn cyflawni yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, rydym yn monitro gweithgareddau'r BBC (gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol) drwy ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth.
- **Gorfodi gofynion y BBC.** Pan fo'n briodol, byddwn yn gorfodi gofynion penodol sy'n berthnasol i'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb, ac o dan y Fframwaith Gweithredu a osodwyd gan Ofcom.
- **Gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod darlledwyr a gwasanaethau rhaglenni ar-alw yn darparu cyfran o'u rhaglenni â

gwasanaethau mynediad i bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw (isdeitlau, arwyddo a disgrifiadau sain). Rydym yn parhau i weithio gyda darlledwyr a darparwyr gwasanaethau ffrydio i fynd i'r afael â materion eraill fel ansawdd a hwylustod defnyddio gwasanaethau mynediad.

- **Gorfodi safonau rhaglenni.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu a radio yn bodloni'r safonau sydd wedi cael eu gosod yn y Cod Darlledu. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau ynghylch niwed a thramgwydd, trosedd, crefydd, cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy, tegwch a phreifatrwydd a chyfeiriadau masnachol. Rydym yn asesu cwynion gan wylwyr a gwrandawyr. Ar ben hynny rydym yn chwilio am achosion o dorri ein rheolau, ac yn canfod achosion o'r fath, a hynny drwy waith monitro wedi'i dargedu. Os bydd achos difrifol, rheolaidd, bwriadol neu ddiotal o dorri ein rheolau, gallwn roi sancsiwn statudol i'r darlledwr. Mae hyn yn gallu cynnwys cosb ariannol ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gallwn ddiddymu ei drwydded i ddarlledu.
- **Amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Mae diwygiadau i'r Cod EPG (cyfeirydd rhaglenni electronig) ar amlygrwydd sianeli teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus i fod i ddod i rym ym mis Ionawr 2021. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, darlledwyr a'r diwydiant ehangach ar sut gallai ein hargymhellion ynghylch amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-alw weithio'n ymarferol.

- A2.5 Rydym yn rheoleiddio cynnwys ar sianeli teledu'r BBC, ei orsafoedd radio, yr iPlayer a gwefan y BBC. Byddwn yn ystyried cwynion a fydd yn cael eu cyfeirio atom os nad ydy'r sawl sy'n cwyno yn fodlon â'r ateb gan y BBC, ond gallwn hefyd gamu i mewn yn gynharach os bydd raid. O ran deunydd ar-lein ar wefan ac apiau'r BBC, mae modd atgyfeirio cwynion atom i gael ein barn arnyn nhw.
- A2.6 Rydym hefyd yn rheoleiddio gwasanaethau ffrydio 'fideo ar-alw' sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Mae'n rhaid i'r rhain ddiwallu cyfres o safonau golygyddol sy'n edrych ar amddiffyn plant, casineb ar lafar a chyfeiriadau masnachol.
- A2.7 Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran safonau ar wasanaethau darlledu ac ar-alw yn esblygu dros amser. Rydym yn bwriadu parhau i wneud gwaith ymchwil ar ddisgwyliadau ar gyfer safonau, sydd yn ein helpu i ddefnyddio rheolau cymesur sy'n adlewyrchu newidiadau o ran agwedd cynulleidfaoedd.

Monitro'r farchnad bost

- A2.8 Mae sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol a deall y newid yn y farchnad bost yn rhan bwysig o'n gwaith. Byddwn yn parhau i geisio deall rhagor am y farchnad ac am gwsmeriaid post wrth i ni baratoi ein hadolygiad nesaf o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post.
- **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a

llythyrau. Byddwn hefyd yn monitro profiadau cwsmeriaid yn y sector post. Byddwn yn parhau i adrodd ar y tueddiadau hyn yn y farchnad bost.

Trefniadau gorfodi effeithiol a chadarn

- A2.9 Mae ein rhaglen waith ehangach a'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn Adran 3, yn cael eu hategu gan ein hymrwymiad i feithrin diwylliant o gydymffurfio ymysg darparwyr cyfathrebiadau yn y DU. Rydym yn monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth, yn ymgysylltu â'r diwydiant ac yn cymryd camau pan fydd angen, gan sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu gorfodi a bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu rhag arferion niweidiol.
- A2.10 Rydym yn parhau i orfodi ein rheolau i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu, a bod darparwyr cyfathrebiadau yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau rheoleiddio. Rydym yn monitro cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â rhwymedigaethau diogelwch rhwydwaith er mwyn lleihau'r risg o doriadau.
- A2.11 Rydym yn monitro'r defnydd o'r tonnau awyr ac yn ymateb i adroddiadau gan bobl a busnesau. Rydym yn dod o hyd i ffynonellau ymyriant ac yn rhoi cyngor i ddatrys hynny, ond rydym yn cymryd camau gorfodi os bydd angen. Rydym hefyd yn monitro offer di-wifr ar y farchnad i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau perthnasol, ac nad yw'n achosi problemau i ddefnyddwyr eraill y sbectrwm. Rydym yn cynnal ymchwiliadau ac yn cymryd camau gorfodi pan fydd hynny'n briodol.

Dyfnhau a rhannu ein dealltwriaeth o gyfathrebu

- A2.12 Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan ein dealltwriaeth o'n sectorau a disgwyliadau pobl yng nghyswllt gwasanaethau cyfathrebu, sy'n ein galluogi i gynllunio'n effeithiol ac addasu i'r newidiadau yn yr amgylchedd cyfathrebu.
- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad.** Rydym yn ymchwilio i'r marchnadoedd cyfathrebiadau ac i ddewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o gwsmeriaid a busnesau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn casglu data'n uniongyrchol gan y diwydiant, ac yn darparu'r data hynny drwy gyhoeddiadau ac ar ein gwefan.
 - **Cyhoeddi ein hadroddiadau ymchwil blynyddol.** Bydd y rhain yn rhoi gwybod am ddarpariaeth a chyflymder rhyngwyd, gwasanaethau ar-lein a'r diwydiant cyfryngau. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein gwybodaeth yn fwy perthnasol ac yn fwy hwylus; cyhoeddir data ym mhob achos yn ein hadnoddau gweledol a'n hadnoddau ar-lein.
 - **Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd ac amcangyfrif o'r cyflymderau ar gyfer rhwydweithiau gwasanaethau symudol a band eang sefydlog cyflym iawn ac sy'n gallu delio â gigabits yn ein diweddariad blynyddol, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r prif adroddiad yn Ch3/4.

- **Adroddiad Cyfryngau'r Genedl.** Dyma ein hadroddiad blynyddol ar deledu (gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a phob gwasanaeth fideo) a radio, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r prif adroddiad yn Ch2.
- **Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein.** Dyma ein hadroddiad blynyddol ar wasanaethau ar-lein, a fydd nawr yn ei ail flwyddyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r prif adroddiad yn Ch1.
- **Llythrennedd yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth oedolion a phlant. Byddwn yn edrych yn fanwl ar agweddau ac ymddygiad plant ar-lein, gan roi'r lle mwyaf blaenllaw i'w safbwyntiau a'u diddordebau eu hunain, yn ogystal â chael darlun clir o'u pryderon a'u problemau. Byddwn yn adolygu ac yn datblygu ein set o waith ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau i sicrhau ei fod yn darparu canfyddiadau amserol a hwylus i helpu pobl, busnesau a sefydliadau. Drwy wneud hynny, byddwn yn cydweithio â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn deall y materion hyn yn well a helpu i siapia a chyfrannu at y drafodaeth.
- **Monitro datblygiadau technolegol a masnachol i baratoi ar gyfer y dyfodol.** Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau technolegol a newidiadau yn y farchnad cyfathrebiadau, gan gynnwys newidiadau yn ymddygiad a disgwyliaid defnyddwyr. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ein gwaith polisi a gwneud penderfyniadau, gan helpu i sicrhau bod pobl a busnesau yn elwa o arloesedd technolegol yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

Ymgysylltu â chyrrff eraill

A2.13 Mae gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraethau datganoledig, rheoleiddwyr eraill a chyrrff eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol, yn ein helpu i wella canlyniadau i gwsmeriaid yn y DU drwy rannu gwybodaeth a chymau gweithredu cydgysylltiedig.

- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrrff eraill ynghylch diogelu cynulleidfaoedd.** Rydyn ni'n ymgysylltu â Llywodraethau, diwydiant a chyrrff eraill i ddiogelu cynulleidfaoedd, ar draws amgylcheddau traddodiadol ac ar-lein. Rydym yn aelod o Gyngor Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch ar y Rhynggrwyd (UKCIS) ac yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop i wella'r diogelwch ar gyfer cynulleidfaoedd gwasanaethau clyweledol.
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrrff eraill ar seilwaith rhwydweithiau.** Rydyn ni'n ymgysylltu â Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a nifer o gyrrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Rydym yn cynghori Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau a Llywodraethau datganoledig ar faterion sy'n ymwneud ag argaeledd, a'r cymorth rydym yn ei ddarparu i wella darpariaeth symudol ar draws y DU. Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i fynd i'r afael â heriau seilwaith cyffredin ar draws sectorau gwahanol, drwy ein gwaith fel aelod o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN).

- **Ymgysylltu â sefydliadau rhyngwladol.** Rydym yn ymgysylltu â nifer o sefydliadau rhyngwladol sy'n ymwneud â rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau ac i helpu i sicrhau bod syniadau polisi sy'n dod i'r fei, ac unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol sy'n berthnasol yn y DU, yn bodloni anghenion ein sector cyfathrebiadau.

A3. Gwaith Prosiect ar gyfer 2020/21

A3.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer 2020/21. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n meysydd gwaith blaenoriaeth.

Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang y DU a datganoledig. Mae rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang wedi cael ei lansio. Mae Ofcom wedi dynodi dau ddarparwr gwasanaeth cyffredinol i ddarparu'r gwasanaeth; wedi sefydlu'r rhwymedigaethau y mae'n rhaid i'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol eu diwallu er mwyn cyflawni'r cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth; ac wedi llunio cynigion i bennu sut gellid gwneud iawn am y costau a gaiff Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Mae cwsmeriaid yn gallu gofyn am y gwasanaeth ers mis Mawrth 2020. Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith yn fwy cyffredinol i wella'r mynediad at wasanaethau band eang yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd a'r ardaloedd mwyaf anghysbell a deall sut bydd anghenion pobl ar gyfer cysylltedd yn y dyfodol yn esblygu.</p>	<p>Datganiad ar reoliadau cyllido Ch1 2020/21</p>
<p>Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol. Byddwn yn cyhoeddi ein prif ymgynghoriad ynghylch ein cynigion ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog ar ddechrau 2020, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Datganiad terfynol yn Ch4 2020/21. Bydd hyn yn cynnwys cysylltiadau llais/band eang cyfanwerthol a llinellau cyfanwerthol ar brydles. Rydym yn awyddus i sefydlu fframwaith rheoleiddio i hyrwyddo cystadleuaeth rhwydwaith pan fydd modd, darpariaeth rhwydwaith gwibgyswllt a galluogi'r rhwydwaith copr blaenorol i gael ei ddisodli'n llyfn gan wasanaethau ffeibr. Bydd unrhyw iawn yn dod i rym o Ch1 2021/22 ymlaen.</p>	<p>Datganiad Ch4 2020/21</p>
<p>Galwadau Cyfanwerthol a Rhyng-gysylltu. Byddwn yn cynnal y rownd nesaf o adolygiadau o'r farchnad ar gyfer terfynu galwadau sefydlog, symudol a 070, a tharddiad galwadau sefydlog. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried beth sydd ei angen i helpu i symud o wasanaethau traddodiadol PSTN (rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus) i wasanaethau llais ar sail IP, gan gynnwys trefniadau ar gyfer Rhyng-gysylltu. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ffurfiol yn Ch2 2020/21. Mae'n debyg y daw unrhyw newidiadau i'r rheoleiddio i rym o Ch1 2021/22 ymlaen.</p>	<p>Ymgynghoriad Ch2 2020/21</p> <p>Datganiad Ch4 2020/21</p>

<p>Rheoleiddio Telegyfathrebiadau yn ardal Hull. Byddwn yn ymgynghori ynghylch ein cynigion ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog yn ardal Hull yn Ch1 2020/2021, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Datganiad terfynol yn Ch4 2020/21. Bydd hyn yn berthnasol i bob un o'r marchnadoedd llais cyfanwerthol/band eang a llinellau ar brydles. Bydd unrhyw iawn yn dod i rym o Ch1 2021/22 ymlaen.</p>	<p>Datganiad Ch4 2020/21</p>
<p>Dyfarnu bandiau sbectrwm wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau. Rydym yn barod i ddyfarnu trwyddedau yn y bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz drwy arwerthiant, ac rydym yn ceisio sicrhau bod unrhyw gamau allanol a allai achosi oedi gyda'r arwerthiant, gan gynnwys drwy heriau cyfreithiol, yn cael sylw cyn gynted â phosib.</p>	<p>Arwerthiant 2020/21</p>
<p>Rhaglen glirio 700 MHz. Byddwn yn parhau i weithio i glirio gwasanaethau teledu digidol oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol. Byddwn yn parhau i weinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio 700 MHz. Mae'r pandemig coronafeirws wedi arwain at gyfyngiadau sylweddol ar deithio, a'r angen i bobl hunanynysu. Penderfynwyd gohirio'r ddau ddigwyddiad terfynol ynghylch clirio 700 MHz, a oedd wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill 2020. Felly, bydd y rhaglen ar gyfer clirio 700 MHz yn cael ei dal yn ôl nes bydd y cyfyngiadau yn sgil y coronafeirws yn cael eu llacio. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid y rhaglen i benderfynu ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer clirio'r band 700 Mhz.</p>	<p>Diweddariad ar glirio 700 MHz Ch2 2020/21</p> <p>Diweddariad terfynol ar glirio 700 MHz Ch3 2020/21</p>
<p>Galluogi rhagor o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol gan gynnwys gwasanaethau 5G. Byddwn ni'n ymgysylltu'n rhyngwladol, ar lefel Ewropeaidd ac yn fyd-eang, i sicrhau bod yr amodau technegol ar gyfer y bandiau sbectrwm blaenoriaeth yn briodol ar gyfer gwasanaethau symudol, gan gynnwys gwasanaethau 5G. Byddwn yn gweithio i ddeall y galw am sbectrwm symudol yn y dyfodol. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith i agor mynediad at fwy o sbectrwm i rwydweithiau mynediad lleol ar gyfer radio (RLAN) gan gynnwys wifi. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i gefnogi'r rôl gynyddol o arloesi di-wifr ar draws sectorau gwahanol.</p>	<p>Datganiad ar RLAN Ch2 2020/21</p>
<p>Gwella darpariaeth symudol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r Llywodraeth a gweithredwyr symudol i ddarparu'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, yn ogystal â chwarae ein rôl yn dal gweithredwyr yn atebol am eu rhwymedigaethau trwydded. Fel rhan o hyn byddwn yn parhau i adrodd yn gyhoeddus am gynnydd cwmnïau symudol o ran gwella'r ddarpariaeth. Rydym yn gweithredu er mwyn galluogi atebion ar sail sbectrwm y gellid eu defnyddio i wella darpariaeth dan do ac</p>	<p>Ymgynghoriad (dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol) Ch3 2020/21</p>

<p>mewn cymunedau gwledig. Bydd hyn yn cynnwys eithrio dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol o drwydded, lle byddwn yn cyflwyno cynigion i'w hystyn i ragor o fandiau amledd, gan gynnwys technolegau eraill (e.e. 5G) a chael gwared ar gyfyngiadau diangen. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer eithrio celloedd femto nifer o weithredwyr o drwydded. Bydd y naill beth a'r llall yn helpu cwsmeriaid sydd â darpariaeth ffôn symudol wael ar hyn o bryd yn eu cartrefi i wella'r signal symudol eu hunain, heb fod angen i'r gweithredwr gamu i mewn. Byddwn yn parhau i ystyried yr opsiynau i wella'r ddarpariaeth mewn adeiladau, mewn ceir ac ar drenau.</p>	
<p>Rhannu sbectrwm: Byddwn yn edrych ar ddefnyddio dull awdurdodi wedi'i awtomeiddio er mwyn cael mynediad i'r bandiau a rennir er mwyn sicrhau bod y sbectrwm sy'n cael ei rannu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.</p>	Parhaus
<p>Mesur perfformiad band eang. Byddwn yn cyhoeddi data ar y perfformiad a ddarperir gan wahanol wasanaethau a sut maen nhw'n amrywio yn ôl nifer o ffactorau, gan gynnwys technoleg, darparwr gwasanaeth, pecyn, daearyddiaeth ac adeg o'r dydd.</p> <p>Byddwn yn dadansoddi data torfol i archwilio sut mae perfformiad rhwydwaith gwasanaethau symudol yn amrywio yn ôl ystod o ffactorau gan gynnwys technoleg, gweithredwyr rhwydwaith gwasanaethau symudol, daearyddiaeth ac amser o'r dydd.</p>	<p>Adroddiad perfformiad band eang yn y cartref Ch1 2020/21</p> <p>Adroddiad perfformiad band eang symudol Ch3 2020/21</p>
<p>Strategaeth rheoli sbectrwm. Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein strategaeth rheoli sbectrwm ac yn sefydlu cynllun ar gyfer gweithredu newidiadau.</p>	<p>Strategaeth sbectrwm Ymgynghoriad Ch2 2020/21</p> <p>Datganiad Ch4 2020/21</p>
<p>Cefnogi arloesi yn yr ystod 100-200 GHz. Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar gefnogi arloesi yn yr ystod sbectrwm yma.</p>	<p>Datganiad Ch2 2020/21</p>
<p>Adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol mewn perthynas â rhwymedigaethau BT o ran adroddiadau ariannol sy'n codi o'r Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol.</p>	<p>Datganiad Ch4 2020/21</p>
<p>Gwerthuso Ex-post. Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad manwl o effaith ein rhwymedigaethau ansawdd gwasanaeth ar berfformiad Openreach ar lefel gwasanaeth. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cyhoeddi o leiaf un gwerthusiad manwl o'n polisiâu blaenorol bob blwyddyn.</p>	<p>Yn flynyddol</p>

Tegwch i gwsmeriaid

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Ymateb i amddiffyn cwsmeriaid bregus yn sgil y coronafeirws. Byddwn yn mynd ati i fonitro ac ymyrryd pan fydd angen er mwyn amddiffyn cwsmeriaid yn ystod yr argyfwng hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar amddiffyn y rheini sydd mewn sefyllfa fregus.</p>	Parhaus
<p>Ymrwymadau Tegwch i Gwsmeriaid. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad cwmnïau yn erbyn yr ymrwymadau hyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad cynnydd, gan gynnal adolygiad i weld a yw cwmnïau'n cyflawni'r hyn maen nhw wedi'i addo. Mae hyn ochr yn ochr â'n hadroddiadau rheolaidd ar gwynion a bodlonrwydd cwsmeriaid.</p>	Adroddiad Ch4 2020/21
<p>Arferion prisio gwahaniaethol band eang. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod rhagor o gwsmeriaid band eang yn cael cytundebau teg. Byddwn yn monitro'r canlyniadau i gwsmeriaid ar ôl i'r ymrwymadau prisio gwirfoddol ddod i rym yn y diwydiant.</p>	Cyhoeddiad Ch2 2020/21
<p>Fforddiadwyedd gwasanaethau band eang: Byddwn yn parhau i fonitro ym mhle mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebu, yn enwedig o ran band eang, ac yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau i helpu cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol. Os byddwn yn canfod angen posib i gyflwyno tariff wedi'i dargedu i warchod y rheini mewn cartrefi incwm isel, byddem yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ystyried sut gellid gweithredu tariff o'r fath.</p>	Cyhoeddiad Ch3 2020/21
<p>Gwybodaeth i ddefnyddwyr am fand eang gwibgyswllt / sy'n gallu delio â gigabits. Mae angen yr wybodaeth iawn ar bobl a busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y gwasanaethau band eang sydd orau iddyn nhw. Byddwn yn ystyried manteision cael mwy o wybodaeth am nodweddion a galluoedd technolegau band eang symudol a sefydlog gwibgyswllt / sy'n gallu delio â gigabits, a sut dylid cyfleu hynny.</p>	Parhaus

<p>Monitro effaith hysbysiadau diwedd contract a hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau. Ers mis Chwefror 2020, mae'n rhaid i gwmnïau band eang, symudol, llinell dir a theledu drwy dalu ddweud wrth gwsmeriaid pan fydd eu contractau'n dod i ben, a dangos iddynt y bargeinion gorau sydd ar gael. Bydd cwsmeriaid sydd y tu allan i gontract hefyd yn cael neges i'w hatgoffa ac yn cael gweld y bargeinion gorau bob blwyddyn. Rydym yn disgwyl i'r hysbysiadau hyn gael effaith gadarnhaol fawr o ran helpu cwsmeriaid i ymgysylltu â'r farchnad a manteisio ar y dewis eang o gynigion sydd ar gael. Byddwn yn adolygu sut mae darparwyr wedi rhoi'r hysbysiadau hyn ar waith, eu heffaith ar ymddygiad cwsmeriaid ac a fyddai'n addas ystyried atebion eraill, fel newid ar y cyd.</p>	Parhaus
<p>Cyfranogiad a bregusrwydd. Rydym yn gweithio i gefnogi anghenion a buddiannau'r rheini sy'n anabl, yn oedrannus, ar incwm isel neu'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r rheini y mae'n ymddangos bod eu hamgylchiadau'n golygu bod angen eu hamddiffyn yn arbennig. Byddwn yn cwblhau ein canllaw ar sut i drin cwsmeriaid bregus yn deg, ac yn cyfrannu at waith polisi ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i gwsmeriaid bregus.</p>	Parhaus
<p>Cyfathrebu Agored. Rydym yn llunio cynigion ar gyfer cynllun cyfathrebu agored. Byddai hyn yn galluogi pobl a busnesau bach i rannu data am eu defnydd o wasanaethau telathrebu (fel eu tariff presennol neu eu defnydd data) gyda thrydydd partïon i'w helpu i ddatgloi'r farchnad a chael bargaen well.</p>	Ymgynghori ar Gyfathrebu Agored Ch2 2020/21
<p>Prisiau personol. Byddwn yn cyhoeddi dogfen drafod ar brisiau personol, gan gynnwys defnyddio data ac algorithmau sy'n cefnogi'r arferion hyn.</p>	Dogfen drafod Ch2 2020/21
<p>Cynllun achredu gwasanaeth cymharu prisiau. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'n cynllun achredu ar gyfer gwefannau cymharu prisiau i sicrhau ei fod yn dal i weithio i gwsmeriaid yn y farchnad fodern, ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd.</p>	Datganiad Ch2 2020/21
<p>Adrodd ar batrymau prisio. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar batrymau prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i gwsmeriaid sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae cwsmeriaid, ar gyfartaledd, yn ei dalu. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau gyda 'disgownt' yn amrywio o brisiau safonol neu brisiau 'rhestr', yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng prisiau mewn-contract a phrisiau y tu allan i gontract.</p>	Cyhoeddiad Ch4 2020/21

<p>Adolygiad o'r Amodau Cyffredinol a'r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol i weithredu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. Byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ar gyfer rhoi'r adran am hawliau defnyddwyr o'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd ar waith yng nghyd-destun ein rhaglen waith ehangach ar Degwch i Gwsmeriaid. Rydym wedi nodi nifer o newidiadau arfaethedig i'n rheolau rheoleiddio, gan gynnwys rheolau newydd ar newid a chludo rhifau, cloi ffonau, hygyrchedd i gwsmeriaid anabl, a gwybodaeth am gontractau. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad o rwymedigaethau'r gwasanaeth cyffredinol blaenorol. Mae angen ei gwblhau erbyn diwedd Ch3 2021/22.</p>	<p>Datganiad EECC Ch2 2020/21</p> <p>Ymgynghoriad ar y broses newid darparwr Ch2 2020/21</p> <p>Datganiad ar y broses newid darparwr Ch3/Ch4 2020/21</p> <p>Ymgynghoriad ar hen wasanaethau rhwymedigaethau'r gwasanaeth cyffredinol. Ch4 2020/21</p>
<p>Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth sefydlog a symudol a pherfformiad. Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth gywir y gellir ei chymharu i gwsmeriaid, am rwydweithiau sefydlog a symudol drwy ein gwiriwr ar-lein. Rydym yn ystyried yr opsiynau i wella sut mae'r offer yma ar gyfer cwsmeriaid yn gweithio, i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac yn hwylus. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar yr wybodaeth rydym yn ei darparu i gwsmeriaid, ac yn cymryd camau i wella ein metrigau.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwrwyd: Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod y materion sydd wedi codi drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwrwyd, gan gynnwys posibilrwydd diffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus yn y dyfodol, yn cael eu nodi ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu cwsmeriaid rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosib arnyn nhw.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Prisiau tecach am ffonau symudol. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau prisiau tecach a mwy tryloyw i gwsmeriaid sy'n prynu contractau ffôn symudol. Ym mis Gorffennaf 2019, ochr yn ochr â'n canfyddiadau ar gontractau ffonau symudol wedi'u bwndelu, roeddem hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i hyd contractau, pan fydd ffonau symudol yn cael eu gwerthu gyda chysylltiad â contract amser sgwrsio (a elwir yn gontractau cysylltiedig wedi'u hollti). Byddwn yn parhau â'n gwaith ar hyn ac yn cwblhau ein cynigion fel rhan o'r Adolygiad o'r Amodau Cyffredinol a'r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol i weithredu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd.</p>	<p>Datganiad Ch2 2020/21</p>

<p>Gwasanaethau llinell dir annibynnol. Roedd BT wedi gostwng y pris i'w gwsmeriaid a oedd yn prynu gwasanaethau llinell dir mewn contract annibynnol ym mis Ebrill 2018. Mae ei ymrwymadau'n dod i ben yn Ch4 2020/21, a byddwn yn ystyried pa fesurau diogelu priodol sydd eu hangen yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y cwsmeriaid hyn yn cael gwerth am arian ar gyfer y gwasanaethau llinell dir maent yn eu prynu.</p>	Dogfen i'w chyhoeddi Ch3/Ch4 2020/21
<p>Adolygiad o bolisi rhifo yn y dyfodol. Byddwn yn parhau â'n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae cwsmeriaid yn ei ddeall, a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. Yn benodol, byddwn yn ystyried dyfodol codau ardal, rhifau 084/087 ac yn bwrw ymlaen â'n rhaglen i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn prisiau galwadau i rifau 07 a'r defnydd ohonynt. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn ochr yn ochr â'n hadolygiad o'r costau ar gyfer rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol.</p>	Parhaus

Cefnogi darlledu yn y DU

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus: Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Byddwn yn ystyried rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, ac sy'n dioddef yn sgil y pandemig coronafeirws, drwy hwyluso 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' gyda'r diwydiant, llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, Senedd y DU, gwylwyr a gwrandawyr.</p>	Ymgynghoriad Ch3 2020/21
<p>Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC. Byddwn yn nodi sut rydym wedi cynnal ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffuriad y BBC â'r gofynion penodol yn y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn hefyd cyhoeddi adroddiad yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus.</p>	Adroddiad Ch3 2020/21
<p>Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC i sicrhau bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu craffu'n briodol o ran rheoleiddio.</p>	Parhaus
<p>Monitro gweithgareddau masnachol y BBC. Mae'n rhaid i weithgareddau masnachol y BBC wneud elw masnachol dros gyfnod priodol er mwyn sicrhau na fydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i dalu am weithgareddau masnachol sy'n gwneud colled. Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar berfformiad ariannol a chyfraddau elw pob un o'i is-gwmnïau masnachol a phob llinell</p>	Parhaus

<p>busnes yn ei is-gwmnïau masnachol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cydymffurfriad y BBC â'n gofynion o ran gwahanu gweithredol a phrisiau trosglwyddo.</p>	
<p>Adolygiad o BBC Studios. Rydym yn adolygu esblygiad BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion masnachu a gwahanu. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad erbyn diwedd 2020/21.</p>	<p>Adroddiad Ch4 2020/21</p>
<p>Ymateb i Ddatganiad Polisi Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4: Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i sut bydd Channel 4 yn cyflawni ei gynlluniau a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2020/21</p>
<p>Adrodd ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil ansoddol, hydredol, ethnograffig ar raddfa fach ymysg oedolion y DU – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2020/21</p>
<p>Adrodd ar lythrennedd plant yn y cyfryngau. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil ansoddol, hydredol, ethnograffig ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol ar lythrennedd plant yn y cyfryngau.</p>	<p>Adroddiad Ch4 2020/21</p>

<p>Pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Rydym wedi bod yn ystyried diwygiadau i'r Cod Darlledu i sicrhau bod darlledwyr yn darparu gofal priodol i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, pan fydd angen. Daeth ein Hymgyngoriad cyntaf i ben yn ystod hydref 2019, ac rydym wedi diwygio ein dull gweithredu ac wedi cyhoeddi ail ymgyngoriad ar 10 Mawrth 2020. Ein nod yw cyhoeddi rheolau newydd a Datganiad yn nes ymlaen yn 2020.</p>	<p>Ymgyngoriad Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, yn dod i ben yn Ch2 2020/21</p> <p>Datganiad Ch2/Ch3 2020/21</p>
<p>Cyfryngau'r Genedl. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn ar dueddiadau allweddol yn y sector teledu a fideo, yn ogystal â'r sector radio a sain.</p>	<p>Ch2 2020/21</p>
<p>DAB ar raddfa fach. Byddwn yn hysbysebu'r trwyddedau cyntaf ar gyfer amblecs radio ar raddfa fach cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Polisi a rheoleiddio hysbysebion. Mae'r Llywodraeth wedi ymgyngori ar gyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebion teledu ar gyfer bwyd a diod sydd â llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS), gan gynnwys gwaharddiad cyn 9 o'r gloch, disgwylir datganiad maes o law. Petai cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno, byddai'n rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu hyn.</p>	<p>Yn amodol ar ymgyngoriad/datganiad gan y Llywodraeth</p>
<p>Adolygu gofynion i gefnogi cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG). Yn unol â Deddf yr Economi Ddigidol 2017, byddwn yn adolygu'r gofynion rydym wedi'u gosod i drwyddedeion EPG er mwyn sicrhau ymddygiad teg, rhesymol ac nad yw'n gwahaniaethu.</p>	<p>Ch3 2020/21</p>

Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos. Mae'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) newydd yn cyflwyno gofynion i llwyfannau rhannu fideos (VSP) gymryd camau priodol i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol, a diogelu'r cyhoedd rhag deunydd anghyfreithlon a deunydd sy'n cymell casineb neu drais. Mae Llywodraeth y DU wedi penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y DU, cyn y ddeddfwriaeth lawn ar niwed ar-lein. Wrth ddatblygu canllawiau ar gyfer y llwyfannau rhannu fideos, byddwn yn gofyn am farn cwmnïau, arbenigwyr a'r cyhoedd drwy ymgyngoriad yn ddiweddarach eleni, ar ôl i'r ddeddfwriaeth angenrheidiol gael ei phasio.</p>	<p>Cais am fewnbwn Ch2 2020/21</p> <p>Trosi AVMSD Ch2 2020/21</p> <p>Ymgyngoriad Ch3 2020/21</p>

<p>Paratoi i reoleiddio niwed ar-lein. Ar 12 Chwefror, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr newydd ar gyfer niwed ar-lein. Os cadarnheir hynny, byddai'r cyfrifoldebau newydd arfaethedig hyn yn ehangu ein cylch gwaith yn sylweddol, a bydd paratoi tuag atynt yn elfen bwysig iawn yn 2020/21 a thu hwnt. Bydd amseriad y gwaith hwn yn dibynnu ar broses Llywodraeth y DU ar gyfer gwneud penderfyniadau terfynol a chyflwyno deddfwriaeth newydd. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddarparu cyngor technegol a mewnbwn i broses datblygu polisiau'r Llywodraeth.</p>	<p>Parhaus / deddfwriaeth i'w chyflwyno gerbron y Senedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn</p>
<p>Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau. Byddwn yn parhau â'n gwaith i helpu i wella dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar-lein oedolion a phlant yn y DU drwy ddarparu gwaith ymchwil cadarn a chydweithrediad gyda/cydllynu busnesau a sefydliadau perthnasol a'u gweithgareddau.</p>	<p>Datblygu rhaglen ymchwil, yn ogystal ag ymgysylltu â Rhwydweithiau / Panel MSOM Ch2/3 2020/21</p>
<p>Gwasanaethau Cyfathrebu Rhyngberonol sy'n Annibynnol ar Rifau (NIICS). Byddwn yn cynnal ac yn cyhoeddi ymchwil i ddeall y gwasanaethau sy'n cynnwys y farchnad NIICS, yn ogystal â phrofiad cwsmeriaid o'r rhain, yng nghyd-destun darpariaethau newydd o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd a ddaw i rym yn Ch3 2020/21.</p>	<p>Canfyddiadau'r ymchwil Ch1 2020/21</p>
<p>Ein Gwlad Ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, sut wasanaeth maent yn ei dderbyn gan ddarparwyr cynnwys a llwyfannau ar-lein, a'u hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngwrwd a'u profiadau o hynny.</p>	<p>Ch1 2020/21</p>

Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Parhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau a gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu canlyniadau'r adolygiad o'r gadwyn gyflenwi telegyfathrebiadau gan weithio'n agos gyda'r diwydiant, gan gynnwys cyflenwyr, i sicrhau bod y rhwydweithiau mae pobl a busnesau'n dibynnu arny'n nhw yn dal yn gadarn. Byddwn yn ceisio sicrhau bod yr holl ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd o fewn cwmpas y gofynion diogelwch telegyfathrebiadau, yn dilyn canllawiau sy'n ymwneud â'r gofynion. Byddwn yn canfod yr arferion gorau a bylchau o ran safonau, ac yn arwain ar gynlluniau i gau'r bwlch. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST), sy'n asesu sut byddai cwmni yn ymdopi ag ymosodiad ar y cyd ar</p>	<p>Parhaus</p>

sail y technegau sy'n cael eu defnyddio gan seiber droseddwr a gwladwriaethau gelyniaethus.	
Datblygu gallu seiberddiogelwch. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu seiberddiogelwch ac yn sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau a gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch.	Parhaus

Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
Adolygu anghenion defnyddwyr. Byddwn yn edrych ar anghenion defnyddwyr ac yn asesu a yw'r farchnad gwasanaethau post yn bodloni anghenion rhesymol y bobl sy'n ei defnyddio.	Adroddiad Ch3 2020/21
Adolygu'r fframwaith rheoleiddio post ar gyfer y dyfodol. Yn 2017, fe wnaethom ddweud y dylai'r dull o reoleiddio'r gwasanaeth post barhau mewn grym tan 2022. Yn ystod 2019/20, rydym wedi bod yn cynnal nifer o brosiectau sy'n ffurfio'r blociau adeiladu ar gyfer adolygiad 2022. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o anghenion defnyddwyr, asesiad o'r farchnad parseli, modelu costau o'r gwaelod i fyny ac adolygu effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Yn ystod 2020/21, byddwn yn dod â'r gwaith hwn at ei gilydd o dan yr adolygiad cyffredinol hwn. Bydd angen mwy o ddarnau o waith: e.e. adolygu cystadleuaeth mynediad ac a oes angen mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer defnyddwyr.	Daw i ben yn 2022

Parhau i arloesi o ran sut rydym yn rheoleiddio i helpu pobl a busnesau

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
Canolfan Arloesi Data. Byddwn yn parhau i ddatblygu tîm canolog i gyfrannu at raglenni gwyddoniaeth data, ac i gefnogi cydweithwyr o gwmpas y sefydliad sydd â diddordeb mewn cynyddu'r wybodaeth a'r effeithlonrwydd a geir o weithgareddau sy'n ymwneud â data. Bydd hyn yn gwella ein hadnoddau a'n prosesau ar gyfer cefnogi datblygu polisïau.	Parhaus
Profi dull newydd i wella sut caiff rhifau ffôn y DU eu rheoli a gwella'r ymddiriedaeth mewn rhifau ffôn. Ar ddyfeisiau fel ffonau clyfar, mae rhifau ffôn yn cyfleu gwybodaeth am bwy sy'n ffonio. Gall pobl ddefnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a ydynt am ateb galwadau ai peidio. Mae'n rhaid i'r wybodaeth honno fod yn ddibynadwy, ond mae dan fygythiad oherwydd twyllwyr sy'n ffugio rhifau ffôn er mwyn gwneud sgamiau. Ar ôl cydweithio â'r	Ymgynghoriad Ch2 2020/21

<p>diwydiant i brofi'r defnydd o dechnoleg cadwyn atal arloesol fel dull o reoli rhifau yn y dyfodol, byddwn yn amlinellu ein hasesiad cychwynnol o gynigion i newid y ffordd mae rhifau yn cael eu defnyddio gan rwydweithiau modern, sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn mynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau. Byddai ein cynigion hefyd yn gallu cefnogi prosesau gwell ar gyfer cludo rhifau a llwybro galwadau i'r rhifau hyn pan fydd cwsmeriaid yn newid rhwng darparwyr sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn ogystal â gwella prosesau rheoli rhifau.</p>	
<p>Treial i roi'r gorau i gopr yng Nghaersallog. Byddwn yn cefnogi treial Ofcom i roi'r gorau i gopr yng Nghaersallog, drwy ddefnyddio ein pŵer cynnull i gefnogi'r treial i ddiogelu cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus a defnyddwyr gwasanaethau arbennig, er mwyn i'r gwersi a ddysgir o'r treial allu cefnogi buddsoddiad ehangach mewn rwydweithiau newydd.</p>	Parhaus
<p>Perfformiad o ran delio â galwadau brys. Byddwn yn adolygu a, lle bo angen, yn cynnig gwell galluedd ar gyfer delio â galwadau brys, er mwyn i bobl deimlo'n hyderus y byddan nhw'n gallu cysylltu â'r gwasanaethau brys.</p>	Parhaus
<p>Arloesedd mewn dulliau gweithredu rheoleiddio. Byddwn yn dod o hyd i gyfleoedd newydd i arloesi yn ein dull rheoleiddio. Yn benodol, byddwn yn mabwysiadu dulliau newydd o lunio polisiau ac yn archwilio ffyrdd o wella sut rydym yn gweithio ac yn meithrin arloesedd. Byddwn yn mynd i'r rhaglen States of Change sy'n cael ei chynnal gan Nesta gyda'n tîm Cyfathrebiadau Newydd 2020; yn defnyddio prosiectau presennol fel profion i dreialu technegau polisi newydd; ac yn gwella sut caiff cynlluniau arloesi presennol eu defnyddio a'u hyrwyddo yn Ofcom.</p>	Parhaus

Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ym mis Gorffennaf 2019, roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad cynnydd cyntaf ar ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2018-2022. Mae'r rhaglen hon yn amlinellu'r camau amrywiaeth a chynhwysiant y byddwn ni'n eu cymryd, gan gynnwys adroddiad manwl o'n hamcanion a'n rhaglen waith, fel cyflogwr ac fel rheoleidiwr cyfathrebiadau'r DU. Cyhoeddir diweddariad ar ein strategaeth yn ddiweddarach yn yr hydref. Byddwn hefyd yn cadarnhau targedau amrywiaeth pum mlynedd newydd ar gyfer Ofcom, oherwydd bydd y targedau presennol a gafodd eu gosod yn 2015 yn dod i ben ddiwedd 2020. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiad</p>	Adroddiad Ch3 2020/21

<p>blynyddol ar amrywiaeth yn yr hydref, sy'n edrych ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn Ofcom. Mae'n edrych ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom yn gyffredinol ac mewn meysydd fel recriwtio, perfformio a hyrwyddo. Mae'r adroddiad yn ein helpu ni i benderfynu beth yw ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn y flwyddyn i ddod.</p>	
<p>Cyflog cyfartal a chyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd. Mae arnom eisiau hyrwyddo diwylliant lle bydd ein holl gydweithwyr, beth bynnag fo eu rhyw neu eu cefndir, yn cael eu gwerthfawrogi yn ôl eu rhinweddau a'u doniau, ac yn cael eu trin yn gyfartal. Mae cyhoeddi ein data am dâl yn rhan bwysig er mwyn deall ble mae angen i ni wella. Bydd yr adroddiad yn egluro ein data ar gyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer y cyfnod 2020/21.</p>	<p>Adroddiad Ch4 2020/21</p>
<p>Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu. Byddwn yn parhau i adrodd ar amrywiaeth yn niwydiannau teledu a radio'r DU er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o berfformiad darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yng nghyswllt hybu cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau.</p>	<p>Adroddiad blynyddol Ch3 2020/21</p>
<p>Cod hygrychedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS). Ar ôl cyflwyno gofynion newydd mewn perthynas â hygrychedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw, byddwn yn cyhoeddi ein cod hygrychedd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw.</p>	<p>Yn ei ddisgwyl Ch4 2020/21</p>

Cefnogaeth drwy gyfnod pontio'r broses o ymadael â'r UE, a chysylltiadau rhyngwladol parhaol

Manylion y Prosiect	Cerrig Milltir
<p>Gweithredu deddfwriaethau Ewropeaidd perthnasol. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi ei gwaith i drosi deddfwriaethau Ewropeaidd perthnasol yn gyfraith genedlaethol. Drwy wneud hyn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y deddfwriaethau'n gymesur ac yn briodol, yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn diwallu anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol.</p>	<p>Parhaus</p>

Goblygiadau strategol y newid yn natur ein perthynas â'r UE.

Byddwn yn darparu cyngor i Lywodraeth y DU yn ôl y gofyn i gefnogi'r trafodaethau gyda'r UE ar fanylion ein perthynas yn y dyfodol. Pan fo'n berthnasol, byddwn hefyd yn darparu cyngor ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i ategu'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Wrth i'r broses esblygu, byddwn yn parhau i gydweithio â'r busnesau a'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio, er mwyn deall eu sefyllfa a'u blaenoriaethau.

Parhaus